

Adroddiad Blynyddol a datganiad o gyfrifon

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

Adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon 2021/22

Adroddiad Blynyddol a gafodd ei gyflwyno i'r Senedd yn unol ag Adran 11(5) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002

Cyfrifon a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol â Pharagraff 17 o Atodlen 2 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 20 Ebrill 2023



© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i wefan nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar wefan www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom i

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
10 South Colonnade
Canary Wharf
Llundain
E14 4PU

Ffôn: 0300 020 0096

E-bost: enquiries@policeconduct.gov.uk

ISBN 978-1-5286-3450-2

E02758677 04/23

Wedi cael ei argraffu ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o gynnwys sydd wedi'i ailgylchu

Wedi cael ei argraffu yn y DU gan HH Associates Ltd ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Cynnwys

Adran 1: Adroddiad perfformiad	6
Trosolwg.....	6
Crynodeb o'n perfformiad	12
Proffil risg	20
Dadansoddi perfformiad	33
Adran 2: Adroddiad atebolrwydd	74
Adroddiad llywodraethu corfforaethol	74
Adroddiad tâl a staff	93
Adroddiad atebolrwydd seneddol	110
Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol	112
Adran 3: Datganiadau ariannol	119

Adran 1: Adroddiad perfformiad

Trosolwg

Amdanom ni – pwy ydyn ni a beth rydym yn gwneud

Ni yw Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC). Rydym yn goruchwyllo system gwynion yr heddlu ac yn ymchwilio i mewn i'r digwyddiadau a'r cwynion mwyaf difrifol sy'n ymwneud â'r heddlu. Rydym yn defnyddio'r hyn a dysgwn o'n gwaith i ddylanwadu ar newidiadau mewn plismona. Mae ein holl waith yn cael ei wneud yn annibynnol i'r heddlu, y llywodraeth a grwpiau sydd â budd.

Mae heddluoedd yn delio â mwyafrif y cwynion sydd yn erbyn swyddogion heddlu a staff heddlu. Rhaid i heddluoedd gyfeirio'r achosion mwyaf difrifol atom ni – ni waeth a yw rhywun wedi gwneud cwyn neu peidio.

Mae heddluoedd arbenigol, fel Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn, y Gwnstabiliaeth Niwclear Sifil a Heddlu Trafnidiaeth Prydain, hefyd yn dod o dan ein hawdurdodaeth. Yn yr un modd, rydym yn goruchwyllo'r system gwynion ar gyfer rhai sefydliadau ychwanegol, fel Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC), yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol (NCA), a'r Awdurdod Gangiau a Cham-drin Llafur (GLAA). Rydym yn ymchwilio i rai cwynion difrifol a materion ymddygiad sy'n ymwneud â staff o'r sefydliadau hyn.

Rydym hefyd yn ymchwilio i honiadau troseddol yn erbyn comisiynwyr heddlu a throedd (PCCs) a'u dirprwyon, a chontractwyr sy'n gweithio i'r heddlu.

Ein cenhadaeth a'n gwerthoedd

Ein cenhadaeth yw i wella hyder y cyhoedd mewn plismona drwy sicrhau bod y swyddogion heddlu'n atebol am eu gweithredoedd a bod gwersi'n cael eu dysgu. Gall ein gwaith sy'n ymchwilio i gwynion a materion marwolaeth ac anafiadau difrifol gael effaith ehangach wrth nodi materion systemig. Gall hyn helpu i lywio a dylanwadu ar newidiadau nid yn unig i blismona, ond ar draws y system cyfiawnder troseddol a sectorau eraill.

Ein gwerthoedd, a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â'n staff a rhanddeiliaid allanol, yw:

- ceisio dod o hyd i'r gwirionedd
- bod yn gynhwysol
- grymuso pobl
- bod yn glynol
- gwneud gwahaniaeth

Ein harweinyddiaeth a'n strwythur

Cawn ein harwain gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro, Tom Whiting. Mae Tom yn arwain y tîm gweithredol ac mae'n cadeirio Bwrdd yr IOPC, sy'n cynnwys chwech cyfarwyddwr anweithredol.

Mae Tom hefyd yn cael ei gefnogi gan dîm gweithredol sy'n cynnwys cyfarwyddwyr rhanbarthol a Chyfarwyddwr i Gymru.

Michael Lockwood oedd y Cyfarwyddwr Cyffredinol nes iddo ymddiswyddo ar 2 Rhagfyr 2022.

Yn ôl y gyfraith, ni all ein Cyfarwyddwr Cyffredinol fod wedi gweithio i'r heddlu. Hefyd nid oes unrhyw un o'n cyfarwyddwyr rhanbarthol na'n Cyfarwyddwr i Gymru wedi gweithio i'r heddlu.

Gallwch ddarllen mwy am ein huwch arweinwyr a'n strwythur rhanbarthol ar [ein gwefan](#).

Rhagair gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro



Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein hadroddiad blynyddol 2021/22, sy'n nodi diwedd ein strategaeth tair blynedd gyntaf yr ydym wedi ceisio gwella hyder ynddi yn system gwynion yr heddlu. Hon oedd ein strategaeth gyntaf fel yr IOPC newydd a ddeilliodd o'n rhagflaenydd, yr IPCC.

Mae ein gwaith eleni wedi parhau i sicrhau bod yr heddlu yn atebol am eu gweithredoedd ac yn bwysig iawn, bod gwersi'n cael eu dysgu o'n hymchwiliadau.

Pan fyddwn yn cynnal ymchwil ac yn gofyn i bobl, ac yn siarad â theuluoedd mewn profedigaeth ac achwynwyr, yr hyn a glywn yn gyson yw eu bod am i'n gwaith arwain at welliannau yn y ffordd y mae plismona'n cael ei wneud.

Yn ystod y 12 mis diwethaf gwelwyd nifer o ddigwyddiadau proffil uchel, gan gynnwys llofruddiaeth Sarah Everard, cyhoeddi ein hadroddiad ar Ymgyrch Hotton, sy'n canolbwyntio ar ymddygiad yng Ngorsaf Heddlu Charing Cross, ac achos "Child Q". Mae eu heffaith ar hyder y cyhoedd mewn plismona yn atgyfnerthu pwysigrwydd goruchwyliaeth annibynnol yn fwy nag erioed.

Rydym wedi cael blwyddyn heriol arall, yn ymdopi ag aflonyddwch parhaus y pandemig COVID-19 a galwadau cynyddol ar ein gwaith. Er gwaethaf hyn, cwblhawyd 90% o ymchwiliadau craidd o fewn 12 mis yn erbyn targed o 85%. Mae'r ffigwr hwn wedi gwella o 68% bedair blynedd yn ôl.

Mae hyn yn drawiadol o ystyried i ni dderbyn dros 5,400 o atgyfeiriadau gan heddluoedd – cynnydd o 16% ar y flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd hwn yn rhan o batrwm o nifer cynyddol o atgyfeiriadau, sydd nawr wedi cynyddu 32% dros y 3 blynedd diwethaf.

Er gwaethaf y cynnydd hwn, gwnaethom benderfynu ar y dull ymchwilio ar gyfer 82% o atgyfeiriadau o fewn tri diwrnod gwaith, gan gynnal ein perfformiad cryf.

Roedd pwysau'n cynyddu ar ein timau Adolygiadau drwy gydol y flwyddyn, gyda mwy o adolygiadau'n dod drwedd ac yn cymryd mwy o amser i'w cwblhau, gan

adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ym mis Chwefror 2020. Ar ddiwedd y flwyddyn roeddem yn cymryd 80 diwrnod gwaith ar gyfartaledd i gwblhau adolygiadau. Wrth i ni gwblhau'r flwyddyn roeddem yn lansio cynllun newydd i gynyddu adnoddau ac edrych ar sut rydym yn ymgymryd â'r maes hwn o'n gwaith.

Yn ystod 2021/22 fe wnaethom barhau â'n gwaith thematig ar wahaniaethu ar sail hil. Roedd hyn yn cynnwys adroddiad ar y defnydd o stopio a chwilio ac adolygiad mawr o ddefnydd Taser. Mae'r ddau faes hyn yn effeithio'n anghymesur ar bobl Ddu. Gwnaethom gyfanswm o 35 o argymhellion dysgu i wella arferion plismona yn y meysydd pwysig hyn.

Yn gyffredinol, gwnaethom dros 170 o argymhellion dysgu i heddluoedd a chyrrff plismona eraill yn 2021/22. Rydym bellach wedi gwneud dros 550 o argymhellion dysgu ers i ni gael ein sefydlu yn 2018 - gwella arferion plismona mewn meysydd pwysig o stelcian ac aflonyddu, gweithgareddau tactegol, a gwarantau chwilio.

Fel bob amser, rydym yn bwriadu rhannu'r hyn a ddysgwyd er mwyn helpu i atal problemau rhag ddigwydd yn y lle cyntaf a hoffwn ddiolch i'r holl heddluoedd a swyddogion hynny sydd wedi croesawu'r argymhellion hyn mor agored.

Mae ein trydydd Adroddiad Effaith eisoes ar gael, sy'n amlygu'r gwaith rydym wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf a'r gwahaniaeth rydym wedi'i wneud.

Mae ymwybyddiaeth ohonom ymhlith pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig wedi parhau i godi ac mae nawr yn 57%. Mae cyfran y bobl ifanc sy'n hyderus bod yr heddlu'n ymdrin â chwynion yn deg yn parhau'n sefydlog ar 37%. Mae gan y grwpiau hyn y lleiaf o hyder yn system gwynion yr heddlu felly mae hwn yn parhau i fod yn faes pwysig i ni wneud gwaith pellach arno.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar fod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol, wedi'i ysgogi gan lywodraethu cryf, pobl a rheolaeth ariannol.

Mae ein canlyniadau yn adlewyrchu gwaith ein staff ac rwy'n falch bod ein sgôr ymgysylltu â staff wedi cynyddu bob blwyddyn ac wedi gwella ymhellach i 67%. Rydym nawr wedi datblygu model gweithio hybrid hirdymor i gyflawni ein strategaeth tra'n ein gwneud yn gyflogwr deniadol.

Hoffwn ddiolch i'n staff a thîm rheoli'r IOPC am eu gwaith caled a'u hymrwymiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Diolch hefyd i'n Cyfarwyddwyr Anweithredol am yr arbenigedd sydd ganddynt ac am eu cefnogaeth a'u her adeiladol dros y 12 mis diwethaf.

Wrth edrych ymlaen, rydym wedi cytuno ar strategaeth pum mlynedd newydd i adeiladu ar yr hyn rydym wedi'i gyflawni ond hefyd i'n helpu i gwrdd â rhai o'r heriau sy'n ein hwynebu. Edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda'n holl

randdeiliaid a'r gymuned ehangach i sicrhau bod hyder y cyhoedd mewn plismona yn cael ei gryfhau ymhellach.

Thomas Whiting

Tom Whiting
Cyfarwyddwr Cyffredinol dros dro

Risgiau allweddol

Mae ein gwaith wedi cael ei drefnu i mewn i bedair blaenoriaeth:

- gweithio gydag eraill i wella system gwynion yr heddlu
- gwella plismona trwy nodi a rhannu'r hyn a ddysgwyd
- gwella hyder yn atebolrwydd yr heddlu
- bod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol

Rydym yn nodi risgiau strategol sylweddol a allai ein hatal rhag cyflawni'r blaenoriaethau hyn, yn asesu'r rhain ac yn eu rheoli trwy weithgareddau lliniaru a lleihau risg. Rydym yn cyflwyno diweddariadau rheolaidd ar y risgiau strategol i'n Pwyllgor Archwilio a Aswariant Risg (PAR) a'n Bwrdd Unedol.

Rydym yn rheoli risgiau lefel is o fewn cyfarwyddiaethau, rhaglenni a phrosiectau fel ei fod yn briodol. Mae proses uwchgyfeirio a dad-ddwysáu ar waith er mwyn sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli ar y lefel gywir.

Mae adran dadansoddi perfformiad yr adroddiad (gweler tudalen 31) yn egluro'r risgiau mawr a wynebwyd gennym yn 2021/22 a'r mesurau lliniaru a roddwyd ar waith gennym.

Crynodeb o'n perfformiad yn ystod 2021/22

Blaenoriaeth 1 – gweithio gydag eraill i wella system gwynion yr heddlu

Yr hyn roeddem yn anelu i wneud	2020/21 gwirionedd	2021/22 targed	2021/22 gwirionedd
Penderfynu ar y dull ymchwilio ar gyfer 80% o achosion a gyfeiriwyd atom o fewn tri diwrnod gwaith	82%	80%	82%
Cwblhau 85% o ymchwiliadau o fewn 12 mis (ac eithrio ymchwiliadau mawr ¹)	91%	85%	90%
Cwblhau 66% o ymchwiliadau o fewn 9 mis (ac eithrio ymchwiliadau mawr)	63%	66%	62%
Cwblhau 35% o ymchwiliadau o fewn 6 mis (ac eithrio ymchwiliadau mawr)	38%	35%	35%
Adolygu achosion marwolaeth neu anaf difrifol yr ymchwiliwyd iddynt yn lleol o fewn 30 diwrnod gwaith o'r dyddiad y mae'r IOPC yn derbyn yr holl bapurau cefndir	N/A	30WD	29WD
Penderfynu ar bob adolygiad o fewn cyfartaledd o 50 diwrnod gwaith o'r dyddiad y mae'r IOPC yn derbyn yr holl bapurau cefndir	N/A	50WD	80WD

¹Mae'r ymchwiliadau mwyaf yn achosion cymhleth a helaeth, megis ymchwilio i weithredoedd yr heddlu yn syth ar ôl trychineb Hillsborough ac ymateb yr heddlu i honiadau nad ydynt yn ddiweddar o gam-drin plant yn rhywiol yn Rotherham. Yn 2021/22 cwblhawyd 421 o ymchwiliadau, a dosbarthwyd 6 ohonynt yn ymchwiliadau mawr.

Blaenoriaeth 2 – gwella plismona trwy nodi a rhannu'r hyn a ddysgwyd o'n gwaith

Yr hyn roeddem yn anelu i wneud	2020/21 gwirionedd	2021/22 targed	2021/22 gwirionedd
Cyhoeddi adroddiad effaith blynyddol sy'n rhoi tystiolaeth o'r gwahaniaeth rydym wedi gwneud o ran gwella plismona a system gwynion yr heddlu	N/A	N/A	N/A
Cael cynnydd o 95% yn y gyfran o randdeiliaid sy'n cytuno bod ein cylchgrawn Learning the Lessons yn arf defnyddiol i ysgogi newid ym mholisi'r heddlu	91%	95%	65%

Dim ond un rhifyn o Dysgu'r Gwersi a gyhoeddwyd yn 2021/22. Mae hyn yn golygu bod maint y sampl ar gyfer y metrig hwn yn sylweddol is na'r flwyddyn flaenorol ac felly nid yw'n darparu cymhariaeth ddibynadwy.

Blaenoriaeth 3 – gwella hyder yn atebolrwydd yr heddlu

Yr hyn roeddem yn anelu i wneud	2020/21 gwirionedd	2021/22 targed	2021/22 gwirionedd
Pobl ifanc sy'n hyderus bod yr heddlu'n ymdrin â chwynion yn deg	37%	N/A	37%
Cyfran y bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sy'n ymwybodol ohonom	53%	N/A	57%

Blaenoriaeth 4 – bod yn sefydliad effeithiol ac effeithlon

Yr hyn roeddem yn anelu i wneud	2020/21 gwirionedd	2021/22 targed	2021/22 gwirionedd
Cyflawni sgôr ymgysylltu â staff o 63% (fel y mesurwyd gan ein harolwg staff blynyddol)	N/A	63%	67%
Sicrhau bod 80% o'n hymchwilyr yn cyflawni achrediad o fewn 24 mis	90%	80%	90.5%

Yr hyn roeddem yn anelu i wneud	2020/21 gwirionedd	2021/22 targed	2021/22 gwirionedd
Cynnal trosiant staff gwirfoddol rhwng 8% a 10%	7.0%	8-10%	11.0%
Peidio cael mwy na 2.9% o absenoldeb salwch staff	1.5%	<2.9%	1.4%

Yn 2020 fe'n cynghorwyd ar fyr rybudd na fyddai cyrff hyd braich nawr yn cael eu cynnwys yn arolwg staff y Gwasanaeth Sifil. Roedd hyn yn golygu nad oeddem yn gallu cynnal arolwg staff yn 2020/21.

Adolygiad ariannol

Bob blwyddyn mae ein cylch cyllidebu a chynllunio blynyddol yn ein helpu i ddatblygu cynlluniau busnes fforddiadwy sy'n darparu'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer ein blaenoriaethau strategol. Dechreuwn gynllunio ar gyfer y flwyddyn ganlynol ar ddechrau'r haf, gan adolygu, ac adnewyddu ein cynllun effeithlonrwydd a buddsoddi dwy flynedd. Drwy'r broses hon rydym yn nodi meysydd o'r busnes sydd angen buddsoddiad ychwanegol ac yn datblygu cynlluniau i greu capasiti i fuddsoddi lle bod angen.

Ein prif ffynhonnell cyllid yw cymorth grant, sy'n dibynnu ar benderfyniadau blaenoriaethu'r Swyddfa Gartref. Fodd bynnag, dim ond digon o arian parod rydym yn ei dynnu i lawr i dalu am ein gwariant refeniw a chyfalaf. Mae'r tabl isod yn dangos ein cymorth grant arian yn y pedair blynedd ers i'r IOPC gael ei greu gan *Ddeddf Plismona a Throsedd 2017*.

Cymorth grant £000au	2021/22	2020/21	2019/20	2018/19
Refeniw	69,645	69,645	71,114	71,343
Cyfalaf	3,000	3,000	2,046	3,289
An-ariannol	4,679	7,190	6,020	6,020

Effeithlonrwydd

Mae ein cyllid refeniw wedi dirywio mewn termau real. Er mwyn buddsoddi yn ein blaenoriaethau, gwnaethom nodi cyfleoedd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd ac arbedion sydd wedi sicrhau £3.9m o arbedion yn y flwyddyn adrodd.

Mae cyfran sylweddol o'r arbedion effeithlonrwydd wedi'u gwireddu trwy ein rhaglen ddadgyfuno TGCh sydd nawr wedi'i chwblhau. Galluogodd hyn i ni i symud ein gwasanaethau TGCh oddi wrth un cyflenwr tuag at drefniant mwy hyblyg sy'n cyfuno nifer o gyflenwyr llai, mwy o allu mewnol a chyflawni gwell gwerth am arian.

Alldro

Rydym yn dyrannu cyllidebau i'r uwch weithredwr sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau gwariant a sicrhau gwerth am arian. Drwy gydol y flwyddyn rydym yn rhagweld ein halldro ariannol er mwyn galluogi adrodd

amserol a gwneud penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau. Mae'r tabl isod yn dangos y duedd mewn alldro a thuedd mewn y nifer FTE.

Alldro £000au	2021/22	2020/21	2019/20	2018/19
Incwm	105	91	78	127
Staff	51,917	53,950	50,938	48,165
TG	5,318	7,160	8,484	9,571
Ystadau	4,971	5,442	4,300	5,633
Teithio	545	408	1,564	1,664
Hyfforddiant a recriwtio	763	569	964	1,246
Gwasanaethau cyfreithiol	1,531	1,408	995	901
Costau eraill	2,117	2,058	1,929	1,732
Gwariant arian parod	67,162	70,995	69,174	68,912
Heb fod yn arian parod	3,372	2,911	4,800	3,715
Gwariant net am y flwyddyn	70,429	73,815	73,896	72,500
FTE ar gyfartaledd	965	987	993	994

Mae'r tabl alldro yn dangos bod gwariant ar staff wedi gostwng o gymharu â 2020/21. Gellir priodoli hyn i ostyngiad mewn gwyliau a gronnwyd a chyfraddau swyddi gwag staff yn uwch na'r disgwyl.

O ran y rhai nad ydynt yn staff, mae ein gwariant TGCh wedi gostwng o ganlyniad i arbedion a gyflawnwyd gan ein rhaglen dadgyfuno TGCh. Mae gwariant teithio yn parhau i fod yn llawer is na 2019/20 o ganlyniad i'r cyfyngiadau pandemig.

Mae costau cyfreithiol wedi codi oherwydd yr angen i geisio mwy o gyngor arbenigol ar rai achosion. Mae costau eraill yn cynnwys gostyngiadau sy'n gysylltiedig â COVID-19 mewn gwariant ar ddigwyddiadau allanol, deunydd

ysgrifennu, postio, ac ati. Mae hyn wedi'i wrthbwysu'n rhannol gan gostau trydydd parti ychwanegol i gefnogi ein gwaith dadgyfuno TGCh.

Mae gwariant heb fod yn arian parod wedi cynyddu ers y llynedd yn dilyn diwygiadau i fywydau economaidd yr ystadau ac asedau TGCh.

Gwariant cyfalaf

TGCh

Mae buddsoddi mewn technoleg yn elfen allweddol o ddylunio ein busnes ar gyfer y dyfodol. Ffocws ein cynllun ar gyfer y flwyddyn dan sylw oedd:

- gwneud y defnydd orau o ddata, hysbysrwydd a gwybodaeth
- diogelu dilysrwydd, cywirdeb a chyfrinachedd cofnodion
- storio gwybodaeth fel ei fod yn ddiogel, ond y gellir ei chanfod a'i defnyddio'n hawdd
- sicrhau bod gwybodaeth ar gael i staff a rhanddeiliaid pan fydd ei hangen arnynt a chael gwared arni'n briodol pan ddaw ein cyfrifoldebau i ben

Y tri phrosiect cyfalaf blaenoriaeth uchel yn ystod y flwyddyn oedd parhau i ddatblygu ein Warws Data Menter, gweithredu SharePoint Online a chynyddu capasiti yn ein Canolfan Ddata yn Crown Hosting.

Ystadau

Un o'n blaenoriaethau yw bod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn cynnwys denu a chadw gweithlu hynod fedrus ac amrywiol a darparu amgylchedd gwaith da iddynt tra'n darparu gwerth am arian yn barhaus.

Eleni fe wnaethom adnewyddu ein swyddfeydd yn Sale a Croydon er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn cefnogi ein gwaith a lles ein pobl orau, gan greu amgylchedd gwaith hyblyg ac ystwyth.

Mae'r tabl isod yn dangos ein gwariant cyfalaf o gymharu â'r ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r gwariant ar asedau sy'n cael eu hadeiladu wedi'i ddadgyfuno.

Gwariant cyfalaf £000au	2021/22	2020/21	2019/20	2018/19
Ystadau	555	458	653	307
Fflyd	-	611	-	-

TGCh	2,700	1,936	1,370	2,764
Cyfanswm gwariant cyfalaf	3,255	3,005	2,023	3,071

Datganiad o sefyllfa ariannol

Mae swm yr arian parod a ddelir yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth wedi cynyddu ar 31 Mawrth o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roeddem yn disgwyl gwneud cyfres o daliadau ym mis Mawrth 2022 ond cafodd y rhain eu gohirio tan 2022/23. O ganlyniad mae'r balans yn uwch na'n hystod targed ar gyfer arian parod rhwng £5m a £7m. Yr arian parod a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn yw £8.420m (2020/21 £5.817m).

Mae gohirio'r taliadau hyn hefyd wedi cynyddu ein croniadau ac o ganlyniad mae cyfanswm y rhwymedigaethau wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf.

Prynu i dalu

Rhoddir dirprwyaeth caffael gan y Swyddfa Gartref ar y sail ein bod yn dilyn arfer gorau, yn cyflawni gwerth gorau, ac rydym yn cydymffurfio â pholisïau caffael y Swyddfa Gartref a gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol. Ar gyfer y rhan fwyaf o gategoriâu gwariant, rydym yn defnyddio fframweithiau CCS ac ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol, rydym yn defnyddio fframweithiau Siambr.

Mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad o'r llwybrau caffael fesul canran ar gyfer 2021/22. Nid oes unrhyw newid wedi bod ers y cyfnod blaenorol.

Llwybr caffael	2021/22	2020/21	2019/20	2018/19
Siambrau	5%	5%	7%	3%
CCS	61%	61%	62%	53%
Arall	34%	34%	31%	44%

Rydym yn cadw at y Safon Brydeinig ar gyfer Cyflawni Perfformiadau Talu Da mewn Trafodion Masnachol (BS 7890). Rydym yn anelu i dalu pob anfoneb ddilys yn unol â thelerau contract neu 30 diwrnod ar ôl derbyn anfoneb ddilys lle na chytunir ar delerau. Mae'r tabl isod yn dangos y tueddiadau mewn taliadau cyflenwyr.

Talu cyflenwyr	2021/22	2020/21	2019/20	2018/19
Talu o fewn 10 diwrnod	87%	88%	90%	92%
Talu o fewn 30 diwrnod	98%	99%	99%	99%

Effaith ariannol o COVID-19

Gwnaethom wario £90,000 (£174,000 yn 2020/21), yn bennaf ar gyfer offer i alluogi staff i ddefnyddio eu cartrefi yn ddiogel ar gyfer gwaith rheolaidd. Fe wnaethom reoli hyn o'n hadnoddau ein hunain ac nid oedd angen i ni ofyn am arian atodol. Gwnaethom greu amgylchedd diogel ar gyfer y staff hynny yr oedd eu hamgylchiadau personol yn golygu na allent weithio'n effeithiol gartref neu yr oedd angen i'w gwaith fod yn y swyddfa. Yn unol â dull y sector cyhoeddus ehangach, ni chafodd unrhyw un o'n staff eu rhoi ar ffyrlo.

Rhagolygon ar gyfer 2022/23

Fel y nodir mewn man arall yn yr adroddiad hwn, ein ffocws ar gyfer 2022/23 yw dechrau strategaeth bum mlynedd newydd, gan ganolbwyntio ar gyflawni gweithredol, dysgu a gwella. Mae hyn yn golygu bod angen i ni ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd i fuddsoddi mewn arferion gweithredol gwell a systemau cymorth gwell.

Creu arbedion effeithlonrwydd

Byddwn yn parhau i ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd ac yn bwriadu cyflawni arbedion o £0.7m yn y flwyddyn nesa.

Buddsoddi

Rydym yn bwriadu buddsoddi mewn darpariaeth weithredol lle byddwn yn cynyddu'r adnoddau staff sydd ar gael i ymdrin ag atgyfeiriadau a gwella amseroldeb y gwaith hwnnw. Rydym hefyd yn bwriadu buddsoddi adnoddau mewn gwaith thematig newydd ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched.

Byddwn hefyd yn datblygu system rheoli achosion newydd sy'n fwy effeithlon ac yn darparu mwy o ddadansoddiadau ar gyfer dysgu o achosion.

Proffil risg

Mae'r IOPC wedi bod yn agored i risg sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol. Dechreuodd y gofrestr risg strategol y flwyddyn, sy'n dogfennu'r risgiau lefel uchaf ar draws y sefydliad, gan adlewyrchu 13 risg. Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei flaen, ychwanegwyd pum risg, a lliniarwyd chwe risg i'r fath lefel y gellid eu dileu. O ganlyniad, daeth yr IOPC â'r flwyddyn i ben gyda 12 risg strategol, a nodwyd saith ohonynt cyn dechrau'r flwyddyn.

Mae'r tabl ar dudalen 20 yn manylu ar y risgiau hynny, eu prif fesurau lliniaru, yr awydd cysylltiedig am risg a'r cyfeiriad rydym yn gweithio ato.

Cymeradwywyd datganiad archwaeth risg wedi'i ddiweddarau gan y Bwrdd Unedol ar ddiwedd 2020/21. Rydym wedi gweithio drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod ein gweithgarwch rheoli risg yn cyd-fynd â'r datganiad diwygiedig. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys adolygu'r risgiau strategol i nodi'r meysydd hynny lle nad yw ein targedau presennol yn adlewyrchu ein datganiad risg, a allai o bosibl arwain at y sefydliad yn gweithredu y tu allan i'w archwaeth risg. Ble canfyddwyd bod hyn yn wir, caiff y targedau eu hadolygu. Ailaseswyd y gweithgaredd lliniaru presennol ac yn y dyfodol i sicrhau ei fod yn briodol i lefel y risg a nodwyd ac i atal gor-liniariad neu dan-liniariad. O'r flwyddyn hon rydym wedi dechrau adrodd ar aliniad ein sefyllfa risg strategol â'n harchwaeth risg i ARAC ac mae hyn nawr wedi'i ymgorffori yn y broses rheoli risg strategol. Yn benodol, rydym yn adolygu'r camau gweithredu sy'n ofynnol i ddod â ni o fewn ein harchwaeth risg a sut maent yn dod yn eu blaenau.

Yn ystod chwarter un y prif fater oedd capasiti gan fod gan hyn y potensial i effeithio ar ein gallu i gyflawni swyddogaethau gweithredol ac mewn swyddogaethau eraill. Er enghraifft, daeth y gwaith a ddeilliodd o archwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r prosiect Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol i'r amlwg fel pwysau yn ystod y flwyddyn y bu'n rhaid ymdrin â nhw. Mae hyn yn ychwanegol at ein hymchwiliadau'n dod yn fwy cymhleth, a'n gwasanaethau yn gynyddol mewn galw gan fod digwyddiadau diweddar wedi effeithio'n andwyol ar hyder y cyhoedd yn yr heddlu. Nododd ein cyfarwyddiaeth Gweithrediadau, yn arbennig, athreulio sylweddol mewn rolau allweddol mewn swyddfeydd penodol yn ystod y cyfnod hwn.

Roedd yn rhaid i'n harweinwyr gyflawni rolau lluosog fel Rheolwyr Gweithrediadau neu Benaethiaid Swyddogaeth, Uwch Swyddogion Cyfrifol, a Pherchnogion Asedau Gwybodaeth. Y canlyniad oedd galw eithriadol o uchel ar amser uwch reolwyr a amlygodd bryderon ynghylch ymarferoldeb rhai o'r rolau arweinyddiaeth hyn.

Roedd gwell sgysiaau, llywodraethu cryfach a gwell gweithio llorweddol wedi helpu timau i ddeall gofynion eraill yn well ac i ddatgelu ac uwchgyfeirio materion. Roedd ail-ddilyniant cynnar o'n cynllun busnes blynyddol y cytunwyd arno ym mis Mai wedi lliniaru rhai o'r cyfyngiadau capasiti.

Daethpwyd ar draws problemau hefyd wrth adrodd am ddata cwynion yr heddlu trwy Warws Data newydd yr Heddlu wrth i faterion pellach o ran cywirdeb y gadwyn ddata gael eu nodi. Lliniarwyd hyn drwy ail-brofi'r adroddiadau data i ddod o hyd i'r achos sylfaenol, bwrw ymlaen ag achos busnes llywodraethu data drwy reoli newid, ymgysylltu â'r cyflenwr a chynnal adolygiad ôl-weithredu ar y prosiect. Mae rhai agweddau o'r achos busnes eto i'w gweithredu, ond byddant yn lliniaru'r risg ymhellach unwaith y byddant wedi'u cwblhau.

Gostyngodd risgiau cysylltiedig â COVID-19 o ran cyflawni ein cynllun busnes ac arferion gwaith yn y dyfodol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd y risgiau hyn yn parhau i gael eu hasesu wrth i effeithiau llacio cyfyngiadau gael eu monitro.

Cafodd risgiau strategol mewn perthynas â rheoli cofnodion, GDPR a thorri data eu hailasesu ar ôl cytuno ar y cynllun gweithredu mewn ymateb i argymhellion archwilio gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Roedd capasiti yn parhau i fod yn broblem yn ystod chwarter dau ac archwiliodd y Bwrdd Rheoli hyn yn fanwl, gan wneud penderfyniadau mewn ymateb, gan gynnwys gohirio gweithgareddau newid a chyflwyno rhewi ar newid nad yw'n orfodol. Ni chanfu gwaith dros yr haf unrhyw ateb hawdd i leihau'r pwysau ar ein staff yn y tymor byr ond bu'n gymorth i ni nodi meysydd penodol dan bwysau.

Gwelsom fwy o alw i ymateb i faterion a godwyd yn dilyn llofruddiaeth Sarah Everard. Cynyddodd hyn y risg y byddai'r galw canlyniadol yn fwy na'n capasiti, gan ein gadael yn methu ag ymateb, gan leihau hyder yn yr IOPC o bosibl. Tyfodd y llwyth gwaith ar ôl cau wrth i ni orffen mwy o ymchwiliadau ond bu oedi wrth eu gwaredu yn y system ehangach sy'n golygu eu bod wedi aros gyda ni yn hirach nag oedd angen.

O ganlyniad uniongyrchol i roi'r gorau i ymchwiliadau thematig am gyfnod y cytunwyd arno, nifer yr ymchwiliadau craidd a ddechreuwyd ym mis Awst 2021 oedd y ffigur misol isaf ers dros bum mlynedd. Cafodd hyn effaith ar ein llwyth achosion gweithredol craidd. Gwnaed gwaith mewn timau Gweithrediadau a Pherfformiad i ddeall cyfansoddiad y llwyth achosion yn well a phwysau cymharol pob achos.

Wrth i arferion gwaith newydd ymwreiddio ac esblygu wrth i ni drosglwyddo i weithio hybrid, cydnabuwyd y bydd goblygiadau i'n hystad a bydd angen gwerthuso'r gwerth am arian y mae'n ei gynnig. Daw hyn yng nghyd-destun agenda Lleoedd ar gyfer Twf y Llywodraeth a'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, fodd bynnag rydym yn parhau i fod yn gyfyngedig gan gytundebau prydles presennol o ran pa mor gyflym y gallwn weithredu yn hyn o beth.

Yn chwarter tri, roedd effaith barhaus y pandemig, a'r heriau parhaus o ran athreuliad mewn rhai swyddfeydd yn ei wneud yn anodd cynnal ymgysylltiad a chynhyrchiant mewn Gweithrediadau ac roedd capasiti yn parhau i fod yn her.


Gwelwyd hyn hefyd ar draws y sefydliad ehangach, yn enwedig capasiti ein tîm Cyfathrebu, a waethygyd ymhellach gyda cholli'r Pennaeth Cyfathrebu. Ymgwymerwyd â gwaith fel blaenoriaeth i recriwtio i rolau allweddol, cynyddu capasiti a phenodwyd Pennaeth Cyfathrebu dros dro newydd.



Roedd y gyfres o adolygiadau a edrychodd ar drais yn erbyn menywod a merched yn peri risg allweddol o ran graddfa debygol y gwaith heb ei gynllunio yn ystod y flwyddyn, ond hefyd yn gyfle i lunio a dylanwadu ar yr agenda. Bydd gan y gwaith hwn ofynion ar gyfer rhai timau ac mae'r camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cael eu bwydo i mewn i gynllunio busnes ar gyfer 2022/23.

Daeth recriwtio yn fater allweddol yn ystod chwarter olaf y flwyddyn, gyda'n gallu i lenwi swyddi gwag a chystadleurwydd y farchnad swyddi bresennol yn arbennig o heriol mewn sawl maes sgiliau allweddol, gan gynnwys mewn Gweithrediadau, data, TGCh, rheoli prosiectau, a thimau cyllid. Er bod adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu, roedd gan y gallu o fewn timau recriwtio i ymdrin â nifer cynyddol o swyddi gwag y potensial i effeithio ar amser gweithredu.



Yn ein timau gwaith achos, mae'r amser cyfartalog i gynnal adolygiadau wedi cynyddu oherwydd y cymhlethdod cynyddol neu'r gwaith adolygu (o'i gymharu ag Apeliadau), a pharhad Apeliadau sy'n dod i mewn. Ymgwymerwyd â recriwtio i fynd i'r afael â hyn ond parhaodd atgyfeiriadau i dyfu o fis i fis ac mae angen recriwtio pellach.



Mae'r tabl canlynol yn amlinellu ein risg strategol ac mae'r allwedd ar y diwedd yn egluro ein diffiniadau o archwaeth risg.



Disgrifiad y risg	Prif ffurf o liniaru	Archwaeth	Tuedd risg
<p>A Ceisiadau iawndal sifil:- dyfarniad(au) llys yn erbyn yr IOPC, gan gynnwys: erthyglau 6 ac 8 ECHR wedi'u hymgysylltu a'u torri gan ymchwiliad neu asesiad apêl gan yr IOPC ; a/neu gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus a ganfuwyd yn erbyn IPCC/staff yr IOPC/cyn staff/comisiynydd</p>	<p>Gwell amseroldeb ymchwiliadau ac asesiadau apêl yr IOPC – lleihau'r posibilrwydd o dorri erthyglau 6/8 trwy waith gweithredol yr IOPC.</p> <p>Defnyddio cwmnïau ymgyfreitha sifil arbenigol, ar fframwaith y llywodraeth, i gynnal yr hawliad ac ar gyfer Eiriolaeth Uchel Lys.</p> <p>Hyfforddiant gwneud penderfyniadau wedi'i</p>	Cymedrol	




Disgrifiad y risg	Prif ffurf o liniaru	Archwaeth	Tuedd risg
	<p>ddarparu ar gyfer y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol ynghylch deall gwneud penderfyniadau gweithredol ac felly deall y risgiau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â hyn.</p>		
<p>B Gall achos(ion) proffil uchel denu sylw negyddol sylweddol yn y cyfryngau cenedlaethol.</p>	<p>Panel Achos Critigol.</p> <p>Ymgysylltu â gweinidogion a swyddogion y llywodraeth.</p> <p>Mae gan bob swyddfa restr o achosion critigol sy'n cael ei hadolygu a'i diweddarau bob mis.</p>	Ar agor	
<p>C Gall yr IOPC aros mewn cyfnod clo neu gadw pellter cymdeithasol llym oherwydd pandemig COVID-19 hyd y gellir rhagweld.</p>	<p>Defnyddio Skype neu Teams ar gyfer cyfarfodydd rhanddeiliaid mewnol ac allanol ac ar gyfer cynnal cyfweiliadau recriwtio.</p> <p>Adolygwyd cynllun cyflawni Dysgu a Datblygu 20-21. Cafodd y rhan fwyaf o'r holl hyfforddiant a gynlluniwyd ei ailgynllunio i'w gyflwyno o bell a'i ddarparu.</p> <p>Cynllun Parhad Busnes Newydd (COVID-19 penodol) wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi.</p>	Cymedrol	

Disgrifiad y risg	Prif ffurf o liniaru	Archwaeth	Tuedd risg
<p>Ch Mae risg y gallai rhannau o'r system cyfiawnder troseddol ehangach nad ydynt yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan yr IOPC a lle mai dim ond dylanwad uniongyrchol cyfyngedig sydd gan yr IOPC, danberfformio e.e. oedi i achosion llys oherwydd y pandemig byd-eang, gan achosi oedi i weithgareddau'r IOPC.</p>	<p>Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol (Gwasanaeth Eryl y Goron a Chrwneriaid) i wella perfformiad lle bod modd.</p> <p>Gwell dealltwriaeth o rôl yr IOPC a'r materion systemig gyda rhanddeiliaid allweddol drwy adroddiadau'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref.</p> <p>Gwaith cyfathrebu parhaus i wella dealltwriaeth o rôl yr IOPC o fewn y system ehangach.</p>	Gwylidw rus	
<p>D Beirniadaeth allanol sylweddol o nifer o feysydd megis HASC, rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig ag achosion proffil uchel gan gynnwys Ymgyrch Midland a threialon Hillsborough, a Ffederasiwn yr Heddlu ynghyd â nifer o ddigwyddiadau proffil uchel yn olynol yn lleihau hyder y cyhoedd mewn plismona yn fwy cyffredinol, cyfuno i arwain y Llywodraeth i adolygu sefyllfa'r IOPC o fewn y system gwynion.</p>	<p>Rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'u targedu â rhanddeiliaid seneddol a rhanddeiliaid allweddol eraill.</p> <p>Rydym yn parhau i arddangos yn allanol y gwaith da yr ydym yn gwneud (gan gynnwys y gwahaniaeth a wnawn).</p> <p>Ymateb rhagweithiol i adroddiad HASC wedi'i gyhoeddi.</p>	Ar agor	

Disgrifiad y risg	Prif ffurf o liniaru	Archwaeth	Tuedd risg
<p>Dd Ni fydd allbynnau Cwynion Gwych yn bodloni disgwyliadau cyrff dynodedig a rhanddeiliaid eraill.</p>	<p>Galwadau 'Grŵp Aur Uwch Gwynion' rheolaidd yn cael eu sefydlu rhwng arweinwyr lefel Cyfarwyddwyr yn HMICFRS a'r coleg a'r IOPC.</p> <p>Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynrychioli'r IOPC ar yr uwch banel.</p> <p>Mae IOPC / HMICFRS / CoP wedi codi adnoddau a risgiau gyda swyddogion y Swyddfa Gartref.</p>	Gwyliadwrus	
<p>E Mae risg y bydd canlyniad adolygiad Swyddfa'r Cabinet yn arwain at feirniadaeth allanol, niwed i enw da a newidiadau posibl i lywodraethu sefydliadol.</p>	<p>Adeiladu tîm adolygu dros dro i sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei chasglu a hunanasesiad yn cael ei gynhyrchu</p> <p>Parhau i gynnal perthynas â gweinidogion y Swyddfa Gartref ac uwch swyddogion, gan gynnwys yr Ysgrifennydd Parhaol.</p>	Ar agor	

Disgrifiad y risg	Prif ffurf o liniaru	Archwaeth	Tuedd risg
<p>F Mae toriad data difrifol. Gall hyn ddeillio o wahanol sefyllfaoedd e.e. hacio, colli papurau'n ddamweiniol, staff ddim yn dilyn y broses, torri amodau'n fwiadol er mwyn ennill ac ati.</p>	<p>Ymagwedd strwythuredig at sicrwydd gwybodaeth a arweinir gan rolau enwebedig (Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth a Pherchnogion Asedau Gwybodaeth) sy'n derbyn hyfforddiant pan fyddant yn ymgymryd â'r rôl ac yna hyfforddiant blynyddol parhaus.</p> <p>Mae'n ofynnol i'r holl staff ddilyn hyfforddiant diogelwch gwybodaeth a sesiynau briffio diogelwch.</p> <p>Sefydlu Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth gyda Chylch Gorchwyl sy'n cynnwys goruchwylio achosion o dorri data.</p>	Gwylidwrus	
<p>Ff Os nad yw'r IOPC yn cydymffurfio'n llawn â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol newydd (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chyflenwyr yn gweithredu fel proseswyr data) bydd yn agored i her gyfreithiol gan wrthrych y data ac ymchwiliad gan y Comisiynydd Gwybodaeth.</p>	<p>Nododd adolygiad gan y tîm cyfreithiol, y Swyddog Diogelu Data ac arbenigwyr pwnc y meysydd gwaith â'r flaenoriaeth uchaf i'r IOPC gydymffurfio â'r gyfraith.</p> <p>Gweithiodd y Swyddog Diogelu Data yn agos gyda phwynt cyswllt sengl yr ICO, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd.</p> <p>Cynhaliwyd gweithgaredd ar y cyd i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn llwyddiannus.</p>	Gwrthwynebus	

Disgrifiad y risg	Prif ffurf o liniaru	Archwaeth	Tuedd risg
<p>G Mae risg na fydd parhad tystiolaeth yn cael ei gynnal wrth atafaelu, rheoli a storio arddangosion.</p>	<p>Recriwtio Rheolwr Arddangosfeydd cenedlaethol sydd â chyfrifoldeb i gefnogi Ymchwiliadau Mawr.</p> <p>Gwell olrhain arddangosion oddi ar y safle at ddibenion cadw a gwaredu.</p> <p>Samplau trochi wythnosol yn cael eu cynnal ym mhob swyddfa, gyda'r Rheolwr Arddangosfeydd yn sicrhau ansawdd y canlyniadau.</p>	Gwrthwynebus	
<p>NgMae methiannau datgelu yn arwain at fethiant sefydliadol i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau statudol o dan Ddeddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 (CPIA) a/neu fethiant i ddarparu deunydd dadlenadwy ar gyfer prosesau Crwnaidd a chamymddwyn.</p>	<p>Sefydlwyd prosiect gyda'r nod o drawsnewid dull yr IOPC o reoli datgeliad. Mae tîm y prosiect yn gweithio ar y cyd ag amrywiaeth o randdeiliaid gweithredol i wella ein gallu i ddatgelu.</p> <p>Mae'r Prosiect wedi cyflwyno proses rheoli dogfennau a sicrhau ansawdd newydd, arweiniad llawlyfr gweithrediadau newydd a hyfforddiant i'r holl staff.</p> <p>Mae Arweinydd Datgelu Cenedlaethol wedi'i benodi.</p>	Cymedrol	
<p>H Efallai na fyddwn yn gallu cyflawni ein strategaeth os bydd ein cyllid yn cael ei leihau'n sylweddol yn dilyn Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.</p>	<p>Roedd gennym gynllun effeithlonrwydd a oedd yn nodi arbedion hyd at fis Mawrth 2022.</p>	Cymedrol	

Disgrifiad y risg	Prif ffurf o liniaru	Archwaeth	Tuedd risg
<p>I Nid yw buddion arfaethedig dadgyfuno TGCh yn cael eu cyflawni.</p>	<p>Ymyrraeth sicrwydd rhaglen gan y Swyddfa Gartref.</p> <p>Mwy o ffocws ar fonitro perfformiad ariannol a rhagweld gweithgarwch dadgyfuno.</p> <p>Adolygiad 3ydd Parti o'r Strategaeth Ddadgyfuno.</p>	Cymedrol	
<p>L Oherwydd effaith COVID-19 ar brosesau cynllunio busnes y sefydliad, a'i effeithiau posibl ar y rhagdybiaethau a wnaethom, mae risg na allwn gyflawni ein targedau perfformiad, cyflawni ein hymrwymiaidau Cynllun Un ac felly cyflawni'r arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd o fewn yr amserlenni a ragwelir.</p>	<p>Roedd datblygiad y darlun buddion ar gyfer Dylunio'r Dyfodol yn cynnwys manylion am y buddion ariannol ac effeithlonrwydd yn seiliedig ar wybodaeth o'r cynlluniau peilot</p> <p>Manteision Dylunio'r Dyfodol a nodir yn achos Busnes y Rhaglen a gyflwynwyd i'r Bwrdd Rheoli.</p> <p>Cynllun Busnes 2021/22 wedi'i gwblhau a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Unedol.</p>	Cymedrol	
<p>LI Os caiff gwasanaethau TGCh, offer, asedau data neu gyflenwyr yr IOPC gael eu torri neu eu peryglu.</p>	<p>Strategaeth Seiber yr IOPC.</p> <p>Proses rheoli risg seiber weithredol, gan gynnwys cynnal cofrestr risg seiber.</p> <p>Rhaglen waith seiber flynyddol.</p>	Cymedrol	

Disgrifiad y risg	Prif ffurf o liniaru	Archwaeth	Tuedd risg
<p>M Mae'n bosibl y byddwn yn destun camau gorfodi, camau rheoleiddio ac ymglyfreitha sifil am beidio â chydymffurfio â'r GDPR oherwydd bod ein gallu presennol i reoli cofnodion ar lefel aeddfedrwydd isel ac nid yw'n addas i'r diben presennol. Mae angen gwaith ychwanegol hefyd ar ein prosesau ar gyfer Torri Data a DPIAs.</p>	<p>Mae'r bwrdd sicrwydd gwybodaeth yn darparu trosolwg ar gyfer rheoli gwybodaeth gan gynnwys rheoli cofnodion.</p> <p>Mae TGCh yn gweithio gyda pherchnogion systemau i sicrhau bod gofynion rheoli cofnodion yn cael eu hystyried wrth ddylunio systemau newydd neu systemau wedi'u huwchraddio.</p> <p>Hyfforddiant gorfodol blynyddol ar gyfer hyfforddiant rheoli cofnodion corfforaethol.</p>	Gwyliadwrus	
<p>NGall morâl staff isel, ynghyd â rhewi cyflogau, gyfrannu at gyfraddau cadw staff is, yn enwedig mewn rhai meysydd a rolau (daearyddol). Yn ogystal, mae diffyg arolwg staff cyfredol yn lleihau ein gallu i ddeall pryderon ein gweithlu ac asesu lefelau morâl yn gywir.</p>	<p>Rhaglen datblygu Rhwydwaith Arweinyddiaeth.</p> <p>Cefnogaeth Arweinydd Tîm Gweithredol</p>	Cymedrol	

Disgrifiad y risg	Prif ffurf o liniaru	Archwaeth	Tuedd risg
<p>ONid yw cyflwyno model gweithio hybrid yn llwyddiannus neu mae'n cael ei weithredu'n wael a gallai hefyd leihau presenoldeb a defnydd ystadau/swyddfeydd.</p>	<p>“Helo Hybrid” – ymateb tîm Dysgu a Datblygu i weithio hybrid.</p> <p>Trafodaethau ag Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth ynghylch Swyddfa Canary Wharf.</p> <p>Cyfathrebu rheolaidd â staff, ar y fewnwyd ynghyd ag eitemau newyddion mewnol ac ati.</p>	Cymedrol	↔

Allwedd ar gyfer diffiniadau archwaeth risg

Archwaeth	Diffiniad
Ceisio	Cymryd risgiau y gellir eu cyfiawnhau.
Ar agor	Cymryd risgiau y gellir eu cyfiawnhau'n gryf.
Cymedrol	Ffafiaeth ar gyfer danfoniad diogel.
Gwylidwrus	Hynod geidwadol
Gwrthwynebus	Mae osgoi risg yn amcan craidd

Mae'r tabl canlynol yn dangos y 12 risg sy'n weddill ar ein cofrestr risg strategol ar ddiwedd y flwyddyn (mae'r llythyrau'n ymwneud â'r tabl uchod) ac yn dangos effaith y camau lliniaru ar y risgiau hynny. Mae'r llythrennau gwyn yn adlewyrchu lefel gros neu wreiddiol y risg ac mae'r llythrennau du yn dangos y net risg neu'r risg sy'n weddill unwaith y bydd mesurau lliniaru effeithiol wedi'u cymhwyso. Bydd risgiau sydd â'r un sgôr risg gros a net hefyd yn cael eu harchwilio ymhellach fel rhan o'r diweddariad o'r archwaeth risg er mwyn nodi gweithgaredd ychwanegol ac adolygiad o'r sgôr cyfredol.

E	G	B E G	B K	
A		H L L	A P Q Q	F F O P
		R	O R	D D

Allwedd

Mae llythrennau gwyn yn adlewyrchu lefel gros neu wreiddiol y risg.

Mae llythrennau du (neu las) yn dangos y net risg neu'r risg sy'n weddill unwaith y bydd mesurau lliniaru effeithiol wedi'u cymhwyso.

- A** Gall yr IOPC fod yn destun hawliadau iawndal sifil neu honiadau o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus yn erbyn staff.
- B** Gall bod achos(ion) proffil uchel denu sylw negyddol sylweddol yn y cyfryngau cenedlaethol.
- D** Gall rhannau o'r system cyfiawnder troseddol ehangach nad ydynt yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan yr IOPC danberfformio.

- E** Beirniadaeth allanol sylweddol o nifer o feysydd megis HASC, rhanddeiliaid yn gysylltiedig ag achosion proffil uchel gan gynnwys Ymgyrch Midland a threialon Hillsborough.
- F** Ni fydd allbynnau Cwynion Gwych yn bodloni disgwyliadau.
- G** Mae canlyniad adolygiad Swyddfa'r Cabinet yn arwain at feirniadaeth allanol.
- K** Mae methiannau datgelu yn arwain at fethiant sefydliadol i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau statudol o dan Ddeddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996.
- L** Rydym yn ansicr os byddwn yn gallu cyflawni ein Strategaeth os bydd ein cyllid yn gostwng yn sylweddol yn dilyn Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.
- O** Gall gwasanaethau TGCh, offer, asedau data neu gyflenwyr gael eu torri neu eu peryglu gan weithredwyr bygythiad seiber.
- P** Mae'n bosibl y byddwn yn destun camau gorfodi, camau rheoleiddio ac ymgyfreitha sifil am beidio â chydymffurfio â'r GDPR oherwydd bod ein gallu presennol i reoli cofnodion ar lefel aeddfedrwydd isel.
- Q** Gall morâl staff QPoor, ynghyd â rhewi cyflogau, gyfrannu at gyfraddau cadw staff is, yn enwedig mewn rhai meysydd a rolau (daearyddol).
- R** Nid yw cyflwyno model gweithio hybrid yn llwyddiannus neu mae'n cael ei weithredu'n wael a gallai hefyd leihau presenoldeb a defnydd ystadau/swyddfeydd.

Dadansoddi perfformiad

Gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Strategol 2018-22 ym mis Tachwedd 2018 ac rydym yn cyhoeddi cynllun busnes blynyddol bob blwyddyn. Mae'r adran hon yn disgrifio ein cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a nodir yn ein Cynllun Busnes 2021/22.

Blaenoriaeth 1: gweithio gydag eraill i wella system gwynion yr heddlu

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud

Byddwn yn gweithio i wella pob rhan o'r system gwynion - ein gwaith ein hunain a gwaith a wneir gan eraill.

Yr hyn yr oeddem yn gobeithio ei gyflawni

Mae system gwynion yr heddlu yn darparu canlyniadau diduedd, teg sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn modd amserol.

Mesur cynnydd yn erbyn ein nodau

Gwnaethom anelu i:

Penderfynu ar y dull ymchwilio ar gyfer 80% o achosion a gyfeiriwyd atom o fewn tri diwrnod gwaith

Derbynom 5,423 o atgyfeiriadau gan awdurdodau priodol yn 2020/21 – cynnydd o 7% ar 2020/21. Er gwaethaf y cynnydd nodweddiadol, gwnaethom gyflawni ein targed tri diwrnod gwaith ar gyfer 82% o atgyfeiriadau, yn cyfateb i berfformiad y llynedd.

Cwblhau 85% o ymchwiliadau o fewn 12 mis (ac eithrio ymchwiliadau mawr)

Yn 2021/22, fe wnaethom barhau â'n nod i gwblhau 85% o ymchwiliadau annibynnol (ac eithrio ymchwiliadau mawr) o fewn 12 mis. Cwblhawyd 90% (375) o'r ymchwiliadau hyn o fewn 12 mis, 5% yn uwch na'n targed ac yn debyg i'n perfformiad y llynedd (91%).

Cwblhau 66% o ymchwiliadau o fewn 9 mis (ac eithrio ymchwiliadau mawr)

Cyflwynwyd dau darged newydd ar gyfer 2021/22; un o'r rhain oedd cwblhau 66% o ymchwiliadau annibynnol (ac eithrio ymchwiliadau mawr) o fewn naw

mis. Yn 2021/22, fe wnaethom gwblhau 62% (257) o ymchwiliadau annibynnol o fewn naw mis, yn is na'n targed o 4% ond yn debyg i'n perfformiad cyn-darged o 63% y llynedd.

Cwblhau 35% o ymchwiliadau o fewn 6 mis (ac eithrio ymchwiliadau mawr)

Yr ail o'n targedau newydd oedd cwblhau 35% o ymchwiliadau annibynnol o fewn chwe mis, heb gynnwys ymchwiliadau mawr. Cyflawnwyd y targed hwn yn 2021/22 gyda 35% (145) o'n hymchwiliadau annibynnol craidd wedi'u cwblhau o fewn chwe mis.

Adolygu achosion marwolaeth neu anafiadau difrifol a ymchwiliwyd yn lleol o fewn 30 diwrnod gwaith ar gyfartaledd o'r dyddiad y mae'r IOPC yn derbyn yr holl bapurau cefndir

Rhaid cyfeirio pob mater marwolaeth neu anaf difrifol (DSI) sy'n ymwneud â swyddogion heddlu neu staff at yr IOPC. Os byddwn yn penderfynu y dylai'r heddlu ymchwilio'n lleol i'r mater, a bod yr heddlu'n penderfynu nad oedd tystiolaeth o droseddoldeb nac arwydd o ymddygiad sy'n cyfiawnhau achos disgyblu, rhaid iddynt anfon copi o adroddiad eu hymchwiliad atom i'w adolygu. Dim ond pan fydd yr holl ddeunydd ategol wedi'i dderbyn gan yr heddlu y gallwn ddechrau adolygiad.

Yn 2021/22, fe wnaethom adolygu 962 o adroddiadau ymchwiliad heddluoedd yn dilyn eu hymchwiliad i farwolaeth neu anaf difrifol. Ar gyfartaledd, cymerasom 29 diwrnod gwaith i gwblhau'r adolygiadau hyn o dderbyn y dogfennau ategol.

Penderfynu ar bob adolygiad o fewn cyfartaledd o 50 diwrnod gwaith o'r dyddiad y mae'r IOPC yn derbyn yr holl bapurau cefndir

Yn 2021/22, derbynem 1,643 o adolygiadau. Ein targed oedd cwblhau ymchwiliadau ac adolygiadau trin eraill o fewn 50 diwrnod gwaith ar gyfartaledd o dderbyn y dogfennau ategol. Cyflawnwyd ffigur cyfartalog o 80 diwrnod gwaith.

Fe wnaethom fonitro ac ymateb i:

Y cyfran o apeliadau neu adolygiadau a gynhelir gennym pan fod aelodau o'r cyhoedd yn anhapus â'r ffordd y mae heddluoedd wedi ymdrin â'u cwyn

O dan y system newydd o adolygiadau, rydym yn asesu os oedd y ffordd yr ymdriniwyd â chwyn neu ganlyniad terfynol y gwyn yn rhesymol a chymesur. Mae rhesymol a chymesur yn golygu gwneud yr hyn sy'n briodol o dan yr amgylchiadau, gan ystyried y ffeithiau a'r cyd-destun y mae'r gwyn wedi'i chodi ynddo, o fewn fframwaith deddfwriaeth a chanllawiau.

Yn 2021/22, fe wnaethom benderfynu nad oedd canlyniad 33% (370 allan o 1,117) o adolygiadau yn rhesymol a chymesur. Yn y sefyllfa hon mae ein hopsiynau yn cynnwys: gwneud ein canfyddiadau ein hunain; cyfarwyddo y dylid ail-ymchwilio i'r gŵyn; gwneud argymhelliad y dylai unigolyn sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu fynychu achosion camymddwyn neu gamymddwyn difrifol; neu wneud argymhelliad gyda golwg ar unioni'r anffodlonrwydd a fynegwyd gan yr achwynydd dan sylw.

Ein gwaith yn 2021/22

Pan wneir cwynion yn erbyn yr heddlu, dylai'r cyhoedd fod yn sicr yr ymdrinnir â nhw yn gadarn ac yn deg. Rhaid hefyd ddeall bod yr ymchwiliir yn ddiuedd i ddigwyddiadau difrifol a chwynion am ymddygiad swyddogion heddlu, y bydd swyddogion yn cael eu dwyn i gyfrif am ymddygiad gwael, ac y bydd gwasanaeth yr heddlu yn dysgu ac yn gwella.


Yn 2021/22 fe wnaethom barhau i weithio i ymchwilio'n annibynnol i'r digwyddiadau mwyaf difrifol yn ymwneud â'r heddlu. Rydym yn wynebu heriau wrth i nifer yr achosion a gyfeirir atom barhau i godi flwyddyn ar ôl blwyddyn, gydag ymchwiliadau'n dod yn fwyfwy cymhleth.

Atgyfeiriadau

Fe wnaethom adolygu dros 5,423 o achosion a gyfeiriwyd atom gan heddluoedd a phenderfynu a ddylid ymchwilio i'r rhain, a sut.

Mae nifer yr atgyfeiriadau a gawn wedi cynyddu'n gyson bob blwyddyn ers 2017/18, gyda'r flwyddyn ariannol hon yn nodi'r nifer uchaf eto.

O'r atgyfeiriadau a gawsom eleni, roedd 5,187 (96%) yn orfodol, 236 (4%) yn wirfoddol. Ffigurau'r llynedd oedd 4,382 (94%) gorfodol, 286 (6%) yn wirfoddol, ac roedd chwech yn faterion y gwnaethom eu galw i mewn (Gall yr IOPC ddefnyddio'r pŵer i 'alw i mewn' lle mae'n ei wneud yn ofynnol i unrhyw gŵyn neu fater ymddygiad cofnodadwy gael ei gyfeirio ato gan yr awdurdod priodol). Roedd tri deg pedwar o'r atgyfeiriadau a gawsom eleni gan gyrff plismona lleol ac yn ymwneud â gweithredoedd prif swyddog. Gallwch ddarganfod mwy am y materion y mae'n rhaid eu cyfeirio atom ar ein gwefan.




Ymchwiliadau annibynnol

Eleni fe wnaethom barhau i wahanu ymchwiliadau mawr oddi wrth ymchwiliadau craidd a'n nod oedd cwblhau 85% o'n hymchwiliadau annibynnol craidd o fewn 12 mis. Cyflwynwyd targedau hefyd i gwblhau 66% o ymchwiliadau annibynnol craidd o fewn 9 mis a 35% o fewn 6 mis i fonitro ein hamseroldeb ymhellach. Rhagorwyd ar ein targed 12 mis o bum pwynt canran (90%, 375 o ymchwiliadau) a chyflawnwyd ein targed 6 mis (145 o ymchwiliadau); er bod ein perfformiad o 62% (257 o ymchwiliadau) yn is na'n targed 9 mis, gwnaethom berfformio'n debyg i'r llynedd (63%).

Ar ddechrau'r flwyddyn roedd gennym 312 o ymchwiliadau gweithredol gyda chyfartaledd o hyd o 141 diwrnod gwaith (tua chwe mis a hanner). Ar ddiwedd 2021/22, roedd 261 o ymchwiliadau gweithredol gyda chyfartaledd o 135 diwrnod gwaith, dros wythnos yn fyrrach o ran hyd nag ar ddechrau'r flwyddyn. Dim ond un o'r ymchwiliadau hyn sy'n parhau i fod yn weithredol o'r llwyth achosion o 538 o ymchwiliadau gweithredol a etifeddwyd gennym gan ein rhagflaenydd, yr IPCC, ar 8 Ionawr 2018.

Fel rhan o'n hadnewyddiad o lywodraethu, rydym hefyd yn datblygu fframwaith perfformiad newydd a chyfres adrodd well i'n galluogi i fonitro cyflawniad a dangos bod ein gwaith yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion strategol. Byddwn hefyd yn datblygu cynllun effeithlonrwydd strategol newydd i'n galluogi i barhau i gyflawni a buddsoddi o fewn cyfyngiadau setliad arian parod gwastad. Bydd chwyddiant yn risg sylweddol i ni oherwydd ei effaith ar brisiau a chyflogau.

Mae fframwaith rheoli risg y sefydliad yn ceisio sicrhau bod risgiau sy'n ymwneud â chyflawni ein hamcanion yn cael eu nodi, eu monitro a'u rheoli. Asesir risgiau ar sail eu heffaith a'u tebygolrwydd gan ddefnyddio graddfa y cytunwyd arni gan y Bwrdd Unedol. Cedwir cofrestr risg strategol, ac mae gan bob blaenoriaeth strategol gofrestr risg weithredol. Mae risgiau a gweithgarwch lliniarol perthnasol yn cael eu nodi a'u hadrodd i'r Bwrdd Rheoli, ARAC a'r Bwrdd Unedol, yn unol â chylchoedd adrodd y sefydliad. Mae gwaith wedi'i

wneud i sicrhau bod yr archwaeth risg yn cael ei adlewyrchu'n briodol mewn gweithgarwch rheoli risg a chaiff ei adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd Rheoli ac ARAC.

Cynhelir adolygiad o'n rheolaethau gan archwilwyr mewnol ac allanol i adlewyrchu eu priod gyfrifoldebau. Yn ogystal, rhoddwyd ystyriaeth benodol i reolaethau mewnol, a allai gael eu heffeithio gan newidiadau mewn arferion gwaith o ganlyniad i COVID-19. Amlygwyd unrhyw faterion arwyddocaol i'r Bwrdd Unedol.

Fe'm hysbyswyd ym mis Hydref bod llythyr "Annwyl Swyddog Cyfrifyddu" wedi'i gyhoeddi ar 30 Medi 2021, yn ei wneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â'r gyfres lawn o Safonau Swyddogaethol newydd y Llywodraeth. Rydym wedi dechrau adolygiad yn erbyn gofynion pob safon berthnasol i asesu ein lefel gyfredol o gydymffurfiaeth a nodi lle mae angen gwaith i gydymffurfio â'r eitemau gorfodol. Mynegwyd cynnydd ar yr adolygiad hwn i ARAC ym mis Ebrill 2022. Bydd diweddariad pellach yn cael ei ddarparu yn y flwyddyn i ddod wrth i ni sefydlu'r arwyddocâd i'r sefydliad ac ymgorffori gwaith angenrheidiol yn y broses cynllunio busnes.

Yn dilyn asesiad risg twyll cychwynnol a gynhaliwyd gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth (GIAA) yn 2019/20, rydym yn parhau i weithio tuag at fodloni meini prawf Safon Swyddogaethol Gov013.

Archwilio mewnol

Darperir gwasanaethau archwilio mewnol gan y GIAA dan Femorandwm Cydddealltwriaeth â'r Swyddfa Gartref.

Mae archwilio mewnol yn ein cynorthwyo i wella gweithdrefnau a rheolaethau yn barhaus. Cytunir ar gamau gweithredu mewn ymateb i argymhellion, a byddwn yn dilyn y rhain i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu.

Darparwyd adroddiad monitro ar weithrediad yr argymhellion i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol o'r adroddiad archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a'n hymatebion rheolwyr.

Ffigur 4

Archwilio	Canfyddiadau allweddol	Ymateb rheolwyr
Caffael	Mae'r archwilwyr yn nodi, er bod y Tîm Caffael wedi bod yn gweithio i wella'r prosesau ac arferion llywodraethu a chaffael presennol, mae nifer o faterion a bylchau yn parhau. Mae'r rhain yn disgyn i dri categori, gwahaniad annigonol o ddyletswyddau, rheoli cofnodion gwael, a threfniadau sicrwydd annigonol. Mae'r 16 argymhelliad yn adlewyrchu hyn.	Mae'r argymhellion wedi'u derbyn ac mae cynllun gwella caffael wedi'i ddatblygu i sicrhau cyflawni
Sicrwydd Ansawdd Penderfyniad - Datgeliad	Dywedodd yr archwilwyr fod yr IOPC Cyffredinol yn gwneud cynnydd da ond bod gwelliannau pellach y gellid eu gwneud.	Derbyniwyd y tri argymhelliad a dylid eu cwblhau erbyn diwedd 2022.
Un Cynllun: Newid a Rheoli Budd	Yn gyffredinol, mae dull y sefydliad o reoli buddion yn aeddfedu. Canfuwyd gwendidau mewn trefniadau rheoli buddion yn archwiliad y Rhaglen Ddadgyfuno TGCh y llynedd ac mae'r tîm Datblygu Busnes wedi defnyddio'r hyn a ddysgwyd i wneud gwelliannau i'w prosesau.	Derbyniwyd pob un o'r wyth argymhelliad, a dylid cwblhau'r mwyafrif yn Ch2 a Chwarter 3 o 2022/23.
Adrodd Sicrwydd Cyllid	Roedd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd y dangosfwrdd sicrwydd sy'n cael ei ddefnyddio gan y tîm at ddibenion sicrwydd, yn ogystal â chydymffurfio â Safon Cyllid Gweithredol GovS 006: Cyllid. Nodwyd meysydd o arfer da a gwnaed pum argymhelliad ar gyfer gwella.	Derbyniwyd y pum argymhelliad a dylid eu cwblhau erbyn diwedd 2022/23.

Ar fy nghais i, cynhaliodd y GIAA ddau darn ymgynghori ar Ddiogelwch Ffisegol ac ar Eiddo ac Ystadau. Gan mai gwaith ymgynghorol oedd hwn, ni wnaed unrhyw argymhellion ffurfiol ond cafwyd adborth defnyddiol.

Iechyd a diogelwch

Mae iechyd a diogelwch wedi bod yn hollbwysig i'n hymateb i COVID-19 trwy gydol y flwyddyn. Mae wedi helpu i sicrhau bod ein hamcanion busnes craidd yn cael eu cynnal tra rhoddwyd y flaenoriaeth uchel i iechyd a diogelwch ein staff. Cymerwyd sawl mesur, gan gynnwys creu swyddfeydd diogel COVID, a phenderfyniadau ynghylch pa ddigwyddiadau heddlu yr ymatebodd ein staff ymchwilio iddynt. Drwy gydol y flwyddyn roedd y rhan fwyaf o'n staff yn gweithio o gartref, yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth.

Arweiniodd y pandemig at dirwedd a oedd yn newid yn gyflym y bu'n rhaid i'r llywodraeth a chyrrff iechyd cyhoeddus weithredu arni. Fe wnaethom ymateb trwy fod yn wybodus, yn pragmatig a chyn y newidiadau a gyhoeddwyd. Fe wnaethom ffurfio gweithgor COVID-19 canolog i ddod â'n harbenigedd, ein gwybodaeth, a'n gweledigaeth ynghyd i'n galluogi i weithredu mor ddiogel â phosibl. Gwnaeth y grŵp benderfyniadau ac argymhellion a gyflwynwyd i'r Bwrdd Rheoli a'r Bwrdd Rheoli Gweithrediadau.

Yn rhan olaf 2021 gwelwyd bygythiad yr amrywiad Omicron newydd a'r canllawiau sy'n newid yn gyflym yn dod gan y llywodraeth a chyrrff iechyd cyhoeddus. Roedd y gweithgor COVID-19 yn barod i ymateb i unrhyw newidiadau mawr a osodwyd a gwneud argymhellion i'r sefydliad ar sut i gyflawni ein swyddogaethau hanfodol tra'n dal i amddiffyn ein staff.

Darparodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch arbenigedd a chynghori'r uwch dîm rheoli mewn ymatebion priodol i'r dirwedd hon sy'n newid yn gyflym. Cyhoeddwyd cyngor ar sut i ymgorffori'r argymhellion gan y Llywodraeth, SAGE, NERVTAG, Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, y GIG, a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ein prosesau busnes.

Effeithiolrwydd y Polisi Mynegi Pryderon

Codwyd dau bryder dan y polisi Mynegi Pryderon yn ystod y flwyddyn ac ymdriniwyd â nhw yn unol â gofynion y polisi.

Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio & Sicrwydd Risg ar y defnydd o'r Polisi Mynegi Pryderon.


Swyddog Cyfrifo

Fel y Swyddog Cyfrifo, mae gennyf gyfrifoldeb personol am gynnal system gadarn o lywodraethu, rheolaeth fewnol, a rheoli risg i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein swyddogaethau o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* a

deddfwriaeth berthnasol arall, tra'n diogelu arian cyhoeddus ac asedau sefydliadol.

Caiff fy adolygiad ei lywio'n rhannol gan waith ein harchwilwyr mewnol, a gwblhaodd gynllun archwilio mewnol blynyddol yn canolbwyntio ar lywodraethu, rheoli risg a fframweithiau rheoli. Diffinnir sicrwydd cymedrol ganddynt fel: mae angen rhai gwelliannau i wella digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.

Rwy'n cefnogi'r farn hon ac yn credu y byddwn yn parhau i wneud rhagor o welliannau mewn rheolaethau yn y dyfodol.

A handwritten signature in black ink that reads "Thomas Whiting". The script is cursive and fluid, with a prominent loop at the end of the word "Whiting".

Tom Whiting

Cyfarwyddwr Cyffredinol dros dro
12 Ebrill 2023

Adroddiad tâl a staff

Polisi tâl

Nod yr IOPC yw darparu pecynnau cydnabyddiaeth cystadleuol i recriwtio a chadw staff o galibr priodol. Rydym yn gweithredu system gradd a gefnogir gan gynllun gwerthuso swyddi dadansoddol. Mae angen cymeradwyaeth ffurfiol gan ein Pwyllgor Pobl a Diwylliant ar gyfer unrhyw newidiadau i'n polisi tâl neu gylch gwaith cyflog.

Rydym yn ddarostyngedig i ganllawiau tâl y Gwasanaeth Sifil a gynhyrchir gan Swyddfa'r Cabinet a Thrysorlys EM ac yn cyflwyno cylch gwaith cyflog blynyddol i'r Swyddfa Gartref, sydd o fewn y canllawiau hynny.

Nid yw telerau penodi'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynnwys adolygiad cyflog blynyddol, fodd bynnag mae cydnabyddiaeth ariannol cyfarwyddwyr eraill ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r dyfodol yn glynu at waith ac argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch.

Contractau gwasanaeth

Ar 8 Ionawr 2018 penodwyd Michael Lockwood yn Gyfarwyddwr Cyffredinol, fel y darperir ar ei gyfer yn Neddf Plismona a Throseddau 2017 ar argymhelliad yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref. Roedd yn Gyfarwyddwr Cyffredinol yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22 ac ymddiswyddodd ar 2 Rhagfyr 2022.

Y Cyfarwyddwr Cyffredinol sy'n penodi cyfarwyddwyr. Fel arfer nid oes gan eu contractau unrhyw gyfnod penodol a gellir eu terfynu gyda hyd at dri mis o rybudd gan yr IOPC. Byddai terfynu cyfarwyddwyr yn gynnar, ac eithrio am gamymddwyn, yn arwain at yr unigolyn yn cael iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Data ymgysylltu â staff

Nid yw'r IOPC yn gymwys i gymryd rhan yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. Datblygwyd mesurau amgen i'w defnyddio o 2021/22 fel yr eglurwyd mewn man arall yn yr adroddiad.

Pobl ag anableddau

Mae'r IOPC yn rhoi ystyriaeth lawn a theg i geisiadau am gyflogaeth gan bobl ag anableddau, lle mae natur y gyflogaeth yn gwneud hyn yn briodol. Rydym

hefyd wedi ymrwymo i alluogi unrhyw aelod o staff a allai ddod yn anabl yn ystod eu cyfnod cyflogaeth i barhau yn eu rôl.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae'r Gyfarwyddiaeth Pobl yn atebol am yr agenda cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI). Mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant, a arweinir gan gyfarwyddwr anweithredol, yn llywodraethu perfformiad EDI, ac yn monitro ac yn herio data'r gweithlu. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cadeirio ein grŵp staff Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, sy'n cyfarfod bob chwarter.

Mae gennym chwech rhwydwaith staff. Cefnogir pob un gan uwch reolwr ac maent yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae'r rhwydweithiau'n canolbwyntio ar bob un o'r naw nodwedd warchoddedig a nodir yn Neddff Cydraddoldeb 2010, yn ogystal â siaradwyr Cymraeg. Mae'r rhwydweithiau'n ymwneud â phob agwedd ar ein busnes.

Mae ein gwybodaeth bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gael ar ein gwefan.

Data trosiant staff

Yn ystod 2021/22 roedd canran trosiant yn 11.0% (2020/21: 7.0%), sydd ychydig yn uwch na'n hystod targed o 7% i 10%. Nid yw'r data yn cynnwys staff ar gontractau cyfnod penodol a rolau tymor byr eraill.

Data absenoldeb salwch

Yn ystod 2021/22, cafodd ein staff 3.7 diwrnod o absenoldeb salwch ar gyfartaledd. Mae hyn yn debyg i gyfartaledd o 3.7 diwrnod yn 2020/21. Mae effaith cyfyngiadau COVID a chynnydd mewn gweithio hybrid wedi lleihau salwch a adroddwyd o gymharu â chanlyniadau cyn-COVID. Rydym wedi ymrwymo i iechyd a lles ein staff ac mae polisi absenoldeb salwch cynhwysfawr yn ei le. Rydym yn darparu Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol a Rhaglen Cymorth i Weithwyr.

Cyfansoddiad staff

Mae'r IOPC wedi ymrwymo i sicrhau y gall pob cydweithiwr gyrraedd ei botensial llawn yn y sefydliad. Rydym yn monitro amrywiaeth y sefydliad trwy ddata HR ac adborth gan ein Cyngor Staff a rhwydweithiau staff.

Mae'r tabl isod yn rhoi cyfansoddiad staff yn ôl rhyw ar 31 Mawrth 2022 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a ddangosir mewn cromfachau. Mae data arall ar gyfansoddiad staff ar gael ar ein gwefan.

Nifer ar 31 Mawrth	Gwrywaidd	Benywaidd	Cyfanswm
Cyfarwyddwyr*	10 (10)	11 (10)	21 (20)
Staff	374 (373)	622 (623)	996 (996)
Cyfanswm	384 (383)	633 (633)	1,017 (1,016)

**Mae'r cyfarwyddwyr ar 31 Mawrth 2022 yn cynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol, 14 gradd SCS a 6 chyfarwyddwr anweithredol.*

lawndal ar ymddeoliad cynnar neu golli swydd

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Dim (2020/21: dim)

Taliadau i gyn-gyfarwyddwyr

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Dim (2020/21: dim)

Niferoedd uwch-staff y gwasanaeth sifil yn ôl band ar 31 Mawrth

Band	2021/22	2020/21
SCS 2	2.0	2.0
SCS 1	12.0	11.0
Cyfanswm	14.0	13.0

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn benodiad y Goron ac nid yw wedi'i gynnwys yn y tabl uchod.

Datgeliad cyflog teg

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Yn y flwyddyn adrodd, y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf yn yr IOPC yw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Ei dâl bandedig cyfwerth ag amser llawn yn 2021/22

oedd £185,000 - £190,000 Mae hyn yn gynydd o 0% dros y flwyddyn ariannol flaenorol cydnabyddiaeth bandiedig cyfwerth ag amser llawn o £185,000 - £190,000.

Yn y flwyddyn adrodd, y tâl cyfartalog mewn perthynas â gweithwyr yr IOPC yn ei gyfanrwydd oedd £39,663. Mae hyn yn gynydd o 3.1% dros y flwyddyn ariannol flaenorol pan oedd y tâl cyfartalog mewn perthynas â gweithwyr yr IOPC yn ei gyfanrwydd yn £38,476. Mae'r wybodaeth am y gymhareb tâl yn y tabl isod:

Band	2021/22	2020/21
Tâl ³ a buddion y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf	187,500	187,500
25 ^{ain} canradd tâl a buddion £	30,032	30,032
Cymhareb 25 ^{ain} canradd	6.2	6.2
Tâl a buddion canradd canolrifol £	34,470	34,470
Cymhareb canolrif	5.4	5.4
75 ^{ain} canradd tâl a buddion £	43,448	45,227
Cymhareb 75 ^{ain} canradd	4.3	4.1

Mae'r newid yn y gymhareb 75fed canradd tâl o ganlyniad i benodiadau newydd. Mae polisiau tâl a gwobrwyo'r IOPC yn dilyn canllawiau Swyddfa'r Cabinet, ac felly credwn fod y gymhareb ganolrifol ar gyfer y flwyddyn yn gyson â'r polisiau cyflog, gwobrwyo a chamu ymlaen ar gyfer ein gweithwyr yn eu cyfanrwydd.

Pennir tâl y Cyfarwyddwr Cyffredinol a chyfarwyddwyr anweithredol gan y Swyddfa Gartref. Mae'r tâl ar gyfer staff gan gynnwys graddau SCS wedi'i gysylltu'n uniongyrchol ag ystodau gwerthuso swyddi. Mae tâl cyfwerth ag amser llawn yn yr ystod £17,000 i £187,500 (2020/21 £18,000 i £187,500).

Mae lwfans pwysoli Llundain o £4,438 yn berthnasol i staff a phrentisiaid sydd wedi'u lleoli yn ein swyddfeydd yn Llundain a Croydon. Nid oes gan ystodau cyflog bwyntiau asgwrn cefn wedi'u halinio â nhw. Pennir cyflogau ar gyfradd sbot a phennir dilyniant cyflog blynyddol gan godiadau canrannol y cytunir

³ Cyflog yn unig yw'r ffigurau a adroddwyd oherwydd ni thalwyd unrhyw fuddion i'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf nac i unrhyw weithwyr eraill

arnynt bob blwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o ystodau cyflog yn cael eu hailbriso bob blwyddyn. Y dyddiad ailbriso nesaf yw 1 Gorffennaf 2022.

Pecynnau ymadael

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Dangosir data cymharol (mewn cromfachau) ar gyfer 2020/21.

Band cost pecyn gadael	Nifer y diswyddiadau gorfodol	Nifer y gwyradau eraill y cytunwyd arnynt	Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost
<£10,000	- (-)	- (-)	- (-)
£10,000 - £25,000	- (-)	- (2)	- (2)
£25,001 - £50,000	- (-)	1 (-)	1 (-)
£50,001 - £100,000	- (-)	2 (1)	2 (1)
£100,001 - £150,000	- (-)	- (-)	- (-)
Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl math (cyfanswm y cost)	- (-)	3 (3)	3 (3)
Cyfanswm y cost (2021/22) yn £000	-	199	199
Cyfanswm y cost (2020/21) yn £000	-	133	133

Talwyd costau diswyddo a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-dal 1972. Rhoddir cyfrif am gostau ymadael yn llawn yn y flwyddyn ymadael. Lle mae'r IOPC wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, telir y costau ychwanegol gan yr IOPC ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Telir costau ymddeoliad oherwydd afiechyd gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi eu cynnwys yn y tabl.

Niferoedd a chostau staff

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae staff parhaol yn cynnwys staff ar gontractau cyfnod penodol, sy'n parhau 12 mis fel arfer. Mae staff eraill yn cynnwys pobl sydd wedi'u secondio i'r sefydliad a llafur wrth gefn.

Nifer cyfartalog y staff (FTE)	2021/22	2020/21
Parhaol	958	979
Arall	7	8
Cyfanswm	965	987

Mae'r tabl canlynol yn dangos cost y staff a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn. Mae staff parhaol yn cynnwys staff ar gontractau cyfnod penodol, sy'n parhau 12 mis fel arfer. Mae staff eraill yn cynnwys gweithwyr dros dro a staff sydd wedi'u secondio i'r sefydliad. Mae'r costau ar ôl adennill mewn perthynas â secondiadau allanol.

Costau staff £'000	2021/22	2021/22	2021/22	2020/21
	Staff parhaol	Arall	Cyfanswm	Cyfanswm
Cyflogau a thaliadau	38,314	399	38,713	40,437
Cost nawdd cymdeithasol	4,013	-	4,013	4,141
Cyfraniadau pensiwn	9,628	-	9,628	9,629
Is-gyfanswm	51,955	399	52,354	54,207
Llai: adenillion mewn perthynas â secondiadau allanol	(437)		(437)	(257)
Costau net yr holl staff eraill	51,518	399	51,917	53,950

Gwariant ar ymgynghoriaeth

Nid oedd unrhyw wariant ar ymgynghoriaeth yn ystod 2020/21 (2020/21: dim).

Llafur amodol

Mae'r IOPC yn cyflogi llafur wrth gefn yn unol â phroses reoli gadarn a osodwyd gan y Swyddfa Gartref. Adroddir ar wariant bob mis i'r Bwrdd Rheoli er mwyn craffu ac adolygu. Mae'r llafur wrth gefn a ddefnyddiwyd ar gyfer ein hymchwiliad Hillsborough wedi dirywio gan ein bod ar gam gwahanol o'r ymchwiliad.

Cost llafur amodol	2021/22 £'000	2020/21 £'000
Hillsborough	108	133
Cyfarwyddiaethau eraill	291	1,041
Cyfanswm	399	1,174

Penodiadau oddi ar y gyflogres

Ni thalwyd unrhyw un o gyfarwyddwyr yr IOPC trwy daliadau i gwmni cyfyngedig neu drydydd parti yn lle cyflog. Telir yr holl gyfarwyddwyr drwy gyflogres yr IOPC.

Mae'r tablau hyn yn dangos nifer y penodiadau oddi ar y gyflogres am £245 neu fwy y dydd.

Ymrwymadau gweithiwr oddi ar y gyflogres â chyflog uchel ar 31 Mawrth 2022, gan ennill £245 y diwrnod neu fwy.	Nifer
Math o benodiadau	
Penodiadau sydd wedi bodoli ers llai na blwyddyn ar adeg adrodd	-
Penodiadau sydd wedi bodoli ers rhwng blwyddyn a dwy flynedd ar adeg adrodd	-
Penodiadau sydd wedi bodoli ers rhwng dwy a thair blynedd ar adeg adrodd	-

Ymrwymiadau gweithiwr oddi ar y gyflogres â chyflog uchel ar 31 Mawrth 2022, gan ennill £245 y diwrnod neu fwy.	Nifer
Math o benodiadau	
Penodiadau sydd wedi bodoli ers rhwng tair a phedair blynedd ar adeg adrodd	-
Penodiadau sydd wedi bodoli ers llai na blwyddyn ar adeg adrodd	1
Penodiadau oddi ar y gyflogres	1

Pob gweithiwr oddi ar y gyflogres â chyflog uchel a gyflogwyd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022, gan ennill £245 y diwrnod neu fwy.	Nifer
Nifer yr ymrwymiadau newydd, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022	
O'r rhain...	
Ddim yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres	-
Nifer y penderfynwyd ei fod o fewn cwmpas IR35	-
Nifer y penderfynwyd eu bod y tu allan i gwmpas IR35	1
Nifer y penodiadau a ailaseswyd at ddibenion cydymffurfio neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn	-
O'r rhain: nifer o benodiadau a welodd newid i statws IR35 yn dilyn adolygiad	-
Nifer y penodiadau lle'r oedd y statws yn destun dadl o dan ddarpariaethau yn y ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres	-
O'r rhain: nifer o benodiadau a welodd newid i statws IR35 yn dilyn adolygiad	-

Ar gyfer unrhyw benodiadau oddi ar y gyflogres gan aelodau bwrdd, a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022	Nifer
Nifer y penodiadau oddi ar y gyflogres gan aelodau bwrdd, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol	-
Cyfanswm yr unigolion ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres sydd wedi'u hystyried yn "aelodau bwrdd", a/neu, yn "uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol", yn ystod y flwyddyn ariannol	13

Gwybodaeth amser cyfleuster undeb llafur

Tabl 1: swyddogion undeb perthnasol	Nifer
Nifer y gweithwyr a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol	
17	17

Tabl 2: canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster	Nifer
Canran yr amser	
0	-
1 – 50	17
51 – 99	-
100	-

Tabl 3: canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster	£'000
Cyfanswm cost amser cyfleuster	140
Cyfanswm y bil i'w dalu	51,956
Canran yr amser a dreuliwyd ar amser y cyfleuster	0.27%

wedi'i gyfrifo fel: (cyfanswm cost amser cyfleuster ÷ cyfanswm bil cyflog) x 100

Tabl 4: gweithgareddau undeb llafur taledig	£'000
Yr amser a dreulir ar weithgareddau undeb llafur cyflogedig fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl	-

Wedi'i gyfrifo fel: (cyfanswm yr oriau a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur taledig gan swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol ÷ cyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl) x 100

Ffigur cyfanswm tâl ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol ar gyfer blwyddyn adrodd 2021/22

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Cyfarwyddwyr anweithredol	Cyflog⁴	Buddion mewn nwyddau	Buddion pensiwn	Cyfanswm y tâl
	£'000	£'000	£'000	£'000
Geoffrey Podger <i>Gadawyd 07/05/21</i>	0-5 (5-10)	-	-	0-5 (5-10)
Julia Mulligan <i>Dechreuwyd 7/05/21</i>	5-10 (5-10)	-	-	5-10 (5-10)
Bill Matthews	5-10	-	-	5-10
Catherine Jervis	5-10	-	-	5-10
Rommel Moseley	5-10	-	-	5-10
Deborah Bowman	5-10	-	-	5-10
Christine Elliott	5-10	-	-	5-10

⁴ Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn gyfwerth â blwyddyn gyfan.

Ffigur cyfanswm tâl ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol ar gyfer y flwyddyn adrodd flaenorol 2020/21

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Cyfarwyddwyr anweithredol	Cyflog ⁵	Buddion mewn nwyddau	Buddion pensiwn	Cyfanswm Tâl
	£'000	£'000	£'000	£'000
Geoffrey Podger	5-10	-	-	5-10
Bill Matthews	5-10	-	-	5-10
Mary Lines <i>Gadawyd 07/02/21</i>	5-10 (5-10)	-	-	5-10 (5-10)
Manjeet Gill <i>Gadawyd 07/02/21</i>	5-10 (5-10)	-	-	5-10 (5-10)
<i>Andrew Harvey</i> <i>Gadawyd 07/02/21</i>	5-10 (5-10)	-	-	5-10 (5-10)
Catherine Jervis	5-10	-	-	5-10
Rommel Moseley <i>Dechreuwyd 08/02/21</i>	0-5 (5-10)	-	-	0-5 (5-10)
Deborah Bowman <i>Dechreuwyd 08/02/21</i>	0-5 (5-10)	-	-	0-5 (5-10)
Christine Elliott <i>Dechreuwyd 15/02/21</i>	0-5 (10-15)	-	-	0-5 (10-15)

Nid yw cyfarwyddwyr anweithredol yn gymwys ar gyfer buddion bonws na phensiwn Nid oedd unrhyw fuddion mewn nwyddau yn ystod 2021/22 na 2020/21.

⁵ Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn gyfwerth â blwyddyn gyfan.

Ffigur cyfanswm tâl sengl ar gyfer uwch reolwyr ar gyfer y flwyddyn adrodd 2021/22

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Uwch reolwyr	Cyflog ⁶	Buddion mewn nwyddau	Buddion pensiwn	Cyfanswm Tâl
	£'000	£'000	£'000	£'000
Michael Lockwood ⁷	185-190	-	-	185-190
Kathie Cashell	110-115	-	43	150-155
David Emery	95-100	-	27	125-130
Liz Booth	100-105	-	39	135-140
Tom Whiting	135-140	-	53	185-190
Claire Bassett	135-140	-	53	185-190

Ffigur cyfanswm tâl sengl ar gyfer uwch reolwyr ar gyfer y flwyddyn adrodd flaenorol 2020/21

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Uwch reolwyr	Cyflog ⁸	Buddion mewn nwyddau	Buddion pensiwn	Cyfanswm Tâl
	£'000	£'000	£'000	£'000
Michael Lockwood ⁷	185-190	-	-	185-190
Kathie Cashell	115-120	-	45	160-165
David Emery	115-120	-	48	165-170
Liz Booth	120-125	-	47	165-170

⁶ Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn gyfwerth â blwyddyn gyfan.

⁷ Ymddiswyddodd Michael Lockwood ar 2 Rhagfyr 2022.

⁸ Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn gyfwerth â blwyddyn gyfan.

Uwch reolwyr	Cyflog ⁸	Buddion mewn nwyddau	Buddion pensiwn	Cyfanswm Tâl
Tom Whiting	135-140	-	53	185-190
Claire Bassett	75-80 (130-135)	-	31	110-115 (165-170)

Nid oedd unrhyw fuddion mewn nwyddau yn ystod 2021/22 na 2020/21.

Taliadau bonws

Nid yw taliadau bonws yn daladwy i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol nac uwch reolwyr eraill yr IOPC.

Taliadau a wneir i gyfarwyddwyr o dan gynllun iawndal y gwasanaeth sifil

Yn ystod 2021/22 ni chafodd taliadau eu gwneud i gyfarwyddwyr o dan gynllun iawndal y gwasanaeth sifil. Doedd dim taliadau yn 2020/21.

Buddion mewn nwyddau

Mae cyfarwyddwyr anweithredol ac uwch reolwyr yn teithio'n rheolaidd i amrywiol swyddfeydd yr IOPC er mwyn cyflawni eu dyletswyddau. Lle, oherwydd natur y tasgau sy'n cael eu perfformio ac amllder y teithio, mae'r rhain yn cael eu hystyried yn weithle parhaol, yna mae cost teithio yn fudd trethadwy mewn nwyddau. Bydd hyn yn cynnwys treth ar gost teithio.

Nid oedd unrhyw fuddion mewn nwyddau yn ystod 2021/22 na 2020/21 o ganlyniad i gyfyngiadau teithio COVID.

Buddion pensiwn

Mae rhai cyn-gomisiynwyr a staff a wasanaethodd fel aelodau o Awdurdod Cwynion yr Heddlu (PCA) yn cymryd rhan mewn cynllun pensiwn 'yn fras trwy gyfatebiaeth' (BBA) fel dewis amgen i aelodaeth cynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r IOPC yn gyfrifol am gyllido buddion pensiwn yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cael eu disgrifio ymhellach yn Nodyn 3.1 y Datganiadau Ariannol

Yn ystod y cyfnod o dan adolygiad, mae Cyfarwyddwr Cyffredinol yr IOPC, a'r holl staff yn gymwys ar gyfer aelodaeth o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Fodd bynnag, nid oedd y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn aelod yn ystod y

cyfnod o dan adolygiad. Mae'r tablau isod yn darparu manylion o'r buddion pensiwn i uwch reolwyr.

Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Mae buddion pensiwn yn cael eu darparu trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ers 1 Ebrill 2015, cafodd cynllun pensiwn newydd ei gyflwyno i weision sifil – y Cynllun Pensiwn i Weision Sifil ac Eraill neu **alpha**. Mae hyn yn darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa ag oed pensiwn arferol yn gydradd ag Oedran Pensiwn Gwlad yr aelod (neu 65 os yn uwch). Ers 1 Ebrill 2015, ymunodd yr holl weision sifil a benodwyd a oedd newydd eu penodi a'r rhan fwyaf o'r rheini yn y gwasanaeth yn barod ag **alpha**. Cyn hyn, roedd gweision sifil yn cymryd rhan ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) Mae gan y PCSPS bedair adran: tair yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (**classic, premium neu classic plus**) sydd gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (**nuvos**) sydd gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi cael eu cyllido a thelir cost buddion gan arian y bleidleisir arno gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan **classic, premium, classic plus, nuvos** ac **alpha** yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth cynyddu pensiynau. Arhosodd aelodau presennol o'r PCSPS oedd o fewn deng mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rheini oedd rhwng deng mlynedd a 13 blynedd a phum mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Oherwydd bod y Llywodraeth yn bwriadu gwaredu ar wahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, disgwylir, maes o law, y gallai fod gan aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 yr hawl i fuddion pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gallai hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler isod).

Bydd pob aelod sy'n newid i **alpha** yn cael eu buddion PCSPS 'wedi'u bancio', a'r rheini sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan adawant **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha** – fel y ei fod yn briodol. Lle mae gan y swyddog fuddion yn y PCSPS yn ogystal ag **alpha**, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun.) Mae aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 yn gallu dewis naill ai'r trefniant budd diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliad 'pryniant arian' â chyfrif pensiwn (**partneriaeth** cyfraniad cyflogwr).

Mae cyfraniadau cyflogai yn gysylltiedig i gyflog ac yn amrywio rhwng 4.6 y cant a 8.05 y cant ar gyfer aelodau **classic, premium, classic plus, nuvos** ac

alpha. Mae buddion yn **classic** yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad cyfwerth â thair blynedd pensiwn cychwynnol yn daladwy ar ymddeol. Ar gyfer **premium** mae buddion yn cronni ar raddfa o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **classic**, nid oes cyfandaliad awtomatig. **Mae Classic plus** yn ei hanfod yn hybrid, gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras megis ar gyfer **classic** a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo megis yn premium. Yn **nuvos**, mae aelodau yn adeiladu pensiwn yn seiliedig ar eu henillion pensiynadwy yn ystod eu cyfnod aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), mae'r cyfrif pensiwn a enillir gan yr aelod yn cael ei gredu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn gynllun honno ac mae'r pensiwn cronodig yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth cynnydd pensiynau. Mae buddion yn **alpha** yn adeiladu mewn ffordd debyg i **nuvos**, heblaw fod y gyfradd gronni yn 2.32 y cant. Ym mhob achos, mae aelodau'n gallu dewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a amlinellir gan y *Ddeddf Cyllid 2004*.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond lle maen nhw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniadau cyfatebol i'r rhain hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% ychwanegol o gyflog pensiynadwy i gwmpasu'r gost o warchodaeth buddion wedi'i ddarparu'n ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad salwch).

Y pensiwn cronodig a ddyfynnir yw'r pensiwn mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fyddent yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os ydynt eisioes wedi cyrraedd, neu dros, oedran pensiwn. Oedran pensiwn yw 60 i aelodau **classic**, **premium** a **classic plus**, 65 i aelodau **nuvos**, a'r uchaf allan o 65 neu oedran pensiwn gwlad i aelodau **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha** – fel ei fod yn briodol. Lle mae gan y swyddog fuddion yn y PCSPS yn ogystal ag **alpha**, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwch y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Mae rhagor o fanylion am drefniadau'r pensiwn Gwasanaeth Sifil i'w gweld ar wefan [Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil](#)

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf a aseswyd gan actiwari buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion sy'n cael eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn cymar dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad sy'n cael ei wneud gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cyfeirio at y buddion mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn gymwys iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall, y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maen nhw hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnir o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost/chost ei hun. Mae CETVau yn cael eu cyfrifo yn unol â'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Gwelliant) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion yn deillio o Dreth Lwfans Oes, a all fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

Gwir gynnydd mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sy'n cael ei gyllido gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiynau cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau sy'n cael eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o unrhyw gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio marchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Uwch reolwyr	Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31/3/22 a chyfand aliad cysylltie dig	Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfand aliad cysylltie dig ar oedran pensiwn	CETV ar 31 Mawrth 2022	CETV ar 31 Mawrth 2021	Gwir gynnydd mewn CETV
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Katherine Cashell	25-30	2.5-5	312	277	20
Claire Bassett	35-40	2.5-5	433	387	26
David Emery	35-40	0-2.5	465	430	9
Liz Booth	5-10	0-2.5	129	93	27
Tom Whiting	10-15	2.5-5	114	76	26

Adroddiad atebolrwydd Seneddol

Archwilwyr

Mae trefniadau ar gyfer archwiliad allanol yn cael eu darparu o dan baragraff 17 (2) o Atodlen 2 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002. Mae hyn yn gofyn i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (C&AG) i archwilio, ardystio ac adrodd ar ddatganiad y cyfrifon, ac i osod copïau ohono (ynghyd â'i adroddiad) o flaen dau dŷ'r Senedd. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) yn cynnal yr archwiliad ar ran y C&AG.

Y ffioedd ar gyfer y gwasanaethau hyn ar gyfer 2021/22 oedd £55,300. Yn 2020/21 roedd y ffi archwilio yn uwch ar £63,200 oherwydd bod gwaith ychwanegol wedi'i wneud i adolygu rheolaethau caffael. Ni wnaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol unrhyw waith nad oedd yn waith archwilio.

Mae gwasanaethau archwilio mewnol yn cael eu darparu o dan gontract gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth.

Rheoleidd-dra gwariant

Mae'r adran hon wedi'i harchwilio.

Nid oes materion rheoleidd-dra i'w hadrodd.

Colledion a thaliadau arbennig

Mae'r adran hon wedi'i harchwilio.

Cyfanswm y colledion a thaliadau arbennig a wnaed o dan y trothwy sy'n gofyn am adrodd. (2020/21: dim.)

Anrhegion

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Ni chafodd anrhegion eu rhoi. (2020/21: dim.)

Ffioedd a chostau

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Derbyniodd yr IOPC incwm gan HMRC am waith ar atgyfeirio a gyflawnwyd o dan adran 28 o Ddeddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005. Cafodd incwm ei


dderbyn gan Orfodaeth Mewnfudo ar gyfer gwaith a wnaed i adolygu cyfeiriadau priodol. Amcan ariannol yr IOPC ar gyfer incwm o gyrff llywodraeth eraill yw adfer cost llawn yn unol â Chanllaw Ffioedd a Chostau'r Trysorlys. Cafodd yr amcan ariannol hwn ei gyflawni. Darperir y dadansoddiad isod at ddibenion ffioedd a chostau ac nid at ddibenion IFRS 8 fel y cyfarwyddir gan y FReM.

Ffioedd a chostau	2021/22 Incwm £'000	2021/22 Costau £'000	2021/22 (Diffyg) £'000	2020/21 Incwm £'000	2020/21 Costau £'000	2020/21 (Diffyg) £'000
Incwm HMRC	47	(47)	-	22	(22)	-
Gorfodaeth Mewnfudo	10	(10)	-	14	(14)	-
Incwm o weithgareddau	57	(57)	-	36	(36)	-
Incwm amrywiol	48	(48)	-	55	(55)	-
Incwm arall	48	(48)	-	55	(55)	-
Cyfanswm	105	(105)	-	91	(91)	-

Rhwymedigaethau amodol o bell

Mae'r adran hon wedi'i harchwilio.

Dim (2020/21: dim)



Tom Whiting

Cyfarwyddwr Cyffredinol dros dro
12 Ebrill 2023

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Senedd.

Barn ar ddatganiadau ariannol

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu:

- Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2022;
- Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Llif Arian a Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol yn:

- rhoi golwg gwir a theg o faterion Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ar 31 Mawrth 2022 ac o'i wariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben y pryd hwnnw; ac
- wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd drwyddi.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriedir gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail ar gyfer barn

Cynheliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs DU), cyfraith gymwysadwy a Nodyn Ymarfer 10 *Archwiliad o*

Ddatganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn cael eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd am archwiliad adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n gofyn i mi a fy staff i gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y *Cyngor Adrodd Ariannol 2019*. Rwyf hefyd wedi dewis i gymhwysu'r safonau moesegol sy'n berthnasol i'r endidau a restrir. Rwy'n annibynnol o Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Rydw i a fy staff wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hynny.

Rwy'n credu bod tystiolaeth yr archwiliad a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i fy marn.

Casgliadau'n gysylltiedig â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu o sail busnes hyfyw cyfrifo ym mharatoad y datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd materol ynglŷn â digwyddiadau nac amodau sydd, yn unigol neu ar y cyd, yn gallu bwrw amheuaeth arwyddocaol ar Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu i barhau fel busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg mae'r datganiadau ariannol yn cael eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddfog Cyfrifo ynglŷn a busnes hyfyw yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail busnes gweithredol cyfrifo ar gyfer Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei wneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle roedd yn rhagweld y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na'm tystysgrif ac adroddiad archwilydd. Mae'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac eithrio i'r graddau a ddatgenir yn benodol fel arall yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw ffurf o gasgliad sicrwydd arni.

Mewn cysylltiad â fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw i ddarllen y wybodaeth arall ac, o wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson â'r datganiadau ariannol neu bod fy ngwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad fel arall yn ymddangos i fod wedi cael ei gam-ddatgan yn faterol.

Os wyf yn adnabod y fath anghysonderau materol neu gamddatganiadau materol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad materol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, fy mod i'n dod i'r casgliad bod camddatganiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002:

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yng nghwrs yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002; a
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

Materion rwy'n adrodd arnynt trwy eithriad

Yng ngolau'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu a'i hamgylchedd a gafwyd yng nghwrs yr archwiliad, nid wyf wedi adnabod camddatganiadau materol yn yr Adroddiad Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol rwyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol i mi ar gyfer fy archwiliad; neu

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan y Swyddfa Annibynnol ar gyfer Ymddygiad yr Heddlu neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelwyd â hwy gan fy staff; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw rhai datgeliadau o daliadau a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EM wedi'u gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Tâl a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethiant yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chyfarwyddyd Trysorlys EM.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am:

- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- rheolaethau mewnol fel y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi'r gwaith o baratoi'r datganiad ariannol i fod yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall; ac
- asesu gallu Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel ei fod yn gymwysadwy, materion ynglŷn â busnes hyfyw a defnyddio'r sail busnes hyfyw o gyfrifo heblaw fod y Swyddog Cyfrifo yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol.

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio, ardystio ac adrodd am y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.

Fy amcanion yw i gael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd rhag camddatganiad materol, naill ai oherwydd twyll neu wall, ac i ddosbarthu tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAAu (DU) yn darganfod camddatganiad materol pan fydd yn bodoli bob tro. Mae camddatganiadau'n gallu codi o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn faterol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid ddisgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys twyll

Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

Nodi ac asesu risgiau posibl yn ymwneud â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

Wrth nodi ac asesu risgiau camddatganiad sylweddol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, gwnaethom ystyried y canlynol:

- natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisiâu cyfrifyddu Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu.
- Holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu a'r rheini â chyfrifoldeb llywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth gefnogol ynghylch polisiâu a gweithdrefnau Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ynglŷn ag:
 - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio;
 - darganfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll ac os oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, a amheuir neu a honnir; a

- mae'r rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau ynglŷn â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn gysylltiedig â Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 a Rheoli Arian Cyhoeddus;
- trafod ymhlith y tîm ymgysylltu sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli o fewn Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ar gyfer twyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabyddiaeth refeniw, postio cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth a thuedd mewn amcangyfrifon rheoli. Yn gyffredin â phob archwiliad o dan ISAs (DU), mae hefyd yn ofynnol i mi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau.

